

ECO'R WYDDFA

Rhif 183

HYDREF 1992

Pris 25c.

YR HEDDLU

Ar dudalen flaen rhifyn Gorffennaf yr Eco beirniadwyd bwriad y Prif Gwnstabl i ad-drefnu gwasanaeth yr Heddlu yn y fro. Y mis hwn cyhoeddwn lythyr oddi wrth yr Heddlu yn cyflwyno'r plismyn sydd bellach yn gweithio yn yr ardal. Mae'r pryderon ynglŷn â'r drefn newydd yn aros. Ond yr ydym yn falch o gael croesawu'r plismyn newydd a dymuno'r gorau iddynt yn eu gwaith yn yr ardal.


D RAENOG

Peidiwch â chredu'r si mai Alain Prost fydd yn cymryd lle Nigel Mansell yng nghar Fformiwla 1 Williams y flwyddyn nesaf. Golygydd Chwaraeon yr Eco fydd yn sedd wag Mansell. Mae eisoes wedi dechrau dysgu gyrru car, ac roedd torf yn ei gymeradwyo ar ddiwedd y wers gyntaf. Piti iddo fynd am y wers gyntaf heb sylweddoli bod rhaid cael trwydded yrru cyn pasio'r prawf yn ogystal â wedyn.

DWY OLWG AR ADDYSG CROESO I YSGOL NEWYDD

'Y mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld yr Ysgol Gymunedol newydd yn agor.' Dyna'r geiriau a welir yng ngholofn newyddion Penisarwaun ar dudalen saith yn y rhifyn hwn o'r Eco.

Cyn bo hir bydd plant Penisarwaun yn symud o Ysgol Tan-y-coed i'r adeilad hardd yng nghanol y pentref. Â ninnau'n clywed o hyd y dyddiau hyn am ysgolion yn cau a phlant yn gorfod symud o'u cynefin i dderbyn eu haddysg, mae'n braf gweld adeilad newydd sbon wedi ei ddarparu ar gyfer un o ysgolion y fro hon. Gobeithiwn roi sylw teilwng i'r dathlu ym Mhenisarwaun yn un o rifynnau nesaf yr Eco, gan gynnwys atgofion rhai o'r cyn-ddisgyblion am Ysgol Tan-y-coed yn ogystal ag adroddiad am agoriad yr ysgol newydd. Mae pawb sydd wedi bod heibio'r adeilad yn siŵr o fod wedi dotio ato, a gallwn ddychmygu'r balchder sydd ym mhentref Penisarwaun wrth ddisgwyl am y diwrnod y bydd y plant yn mynd i'r Ysgol newydd am y tro cyntaf.



DIM CROESO I'R DREFN NEWYDD

Os oes croeso i ysgol newydd, does fawr o goeso i gynlluniau'r Llywodraeth i ddiwygio'r system addysg ymhellach yng Nghymru a Lloegr. Cafodd y Papur Gwyn ar Addysg ei feirniadu ar dudalennau'r Eco y mis diwethaf, a daw dan lach colofn Deio yn y rhifyn hwn. Mewn cyfarfod o Bwyllgor Addysg Gwynedd ar Fedi 24ain gwrthododd yr aelodau argymhellion y Papur Gwyn yn bendant ac unfrydol.

PAPUR GWYN?

Ond beth yw'r Papur Gwyn y mae cymaint mor barod i ladd arno? Enw ar ddogfen sy'n rhoi manylion am y gwahanol ddeddfau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu pasio yw Papur Gwyn. Rhaid cyhoeddi Papur Gwyn cyn pasio deddfau newydd er mwyn rhoi cyfle i bobl ymateb i'r argymhellion cyn bod y Senedd yn pasio (neu wrthod) yr argymhellion hynny.

GWRTHWYNEBIAD

Cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn ar Addysg ym mis Gorffennaf. Dim ond tri mis a roddwyd i bobl anfon eu sylwadau am gynnwys y

Papur Gwyn at y Llywodraeth. Roedd yr ysgolion ar gau dros yr haf am hanner y cyfnod hwnnw. Ac roedd hi'n amhosibl i Gyrff Llywodraethol yr Ysgolion wneud dim ym mis Medi, gan nad oedd y Cyrff Llywodraethol newydd wedi cael eu ffurfio. Dyna dacteg fwriadol y Llywodraeth i'w gwneud hi mor anodd ag oedd modd i neb feirniadu'r argymhellion. Ond er hynny, cafwyd gwrthwynebiad mawr i gynnwys y Papur Gwyn o du Undeb Athrawon ac Awdurdodau Addysg a llu o fudiadau ac unigolion trwy Gymru. Yn ei Ragair i'r Papur Gwyn mae'r Prif Weinidog yn dweud am ei gynnwys, 'Ychydig iawn o bobl fyddai'n anghydweld â'r egwyddorion hyn'. Byddai'n rheitiach iddo ddweud erbyn hyn, 'Ychydig iawn o bobl fyddai'n cydweld â'r egwyddorion hyn'.

Y NEWID MAWR

Os caiff y Papur Gwyn ei droi yn ddeddf gwlad, gallai'r holl ffordd o drefnu ysgol ac addysg ein plant newid.

Er bod y Llywodraeth o blaid rhoi

mwy o rym i Lywodraethwyr yr Ysgolion, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol gael gwared ohonynt a rheoli'r Ysgol ei hunan. Byddai'r hawl ganddo hefyd i gau ysgolion a ystyriai yn rhai sâl.

Ar hyn o bryd arbenigwyr yn y byd addysg sy'n sicrhau safon yn yr ysgolion, ond byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn rhatach wedyn gan bobl na fyddai o reidrwydd yn deall y gwaith cystal.

Byddai ysgolion yn cystadlu â'i gilydd am y plant mwyaf galluog a'r plant o gartrefi cefnog. Pa obaith fyddai wedyn am addysg gyfartal, a fyddai'n cynnig yr un cyfle i bob plentyn?

Byddai dysgu'r Gymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg dan fygythiad. Gallai Corff Llywodraethol ysgol neu bwyllgor yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu mai tipyn o niwsans yw'r busnes iaith yma.

Gallai'r Awdurdod Addysg Lleol gael ei ddileu, a phwyllgor o bobl wedi eu dewis gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn rheoli o'r Swyddfa



CHOICE AND DIVERSITY
A new framework for schools



Gymreig. Byddai hwnnw yn atebol i neb ohonom.

PAPUR COCH

Mae'r Papur Gwyn hwn yn fygythiad i addysg Gymraeg, i addysg gyfartal, i addysg leol, ac i addysg rad. Gobeithio bydd y Llywodraeth yn ystyried y gwrthwynebiad cryf sydd i'r Papur Gwyn, ac na welwn ei argymhellion COCH yn dod yn ddeddf gwlad.

ECO'R WYDDFA

RHIF 183
HYDREF 1992

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: Caernarfon 5649)

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: Llanberis 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115)

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen. (Llanberis 870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug. (Caernarfon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (Caernarfon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug. (Caernarfon 5605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Ty
Hen, Waunfawr. (Waunfawr 599)

TREFNYDD GWERTHIANT

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr
Orsaf, Llanrug. (Caernarfon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug. (Caernarfon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug. (Waunfawr 200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (Waunfawr 570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Felinheli 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (Waunfawr 799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Dlanrafol (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen
(Llanberis 871259)

DINORWIG:

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, HYDREF 29

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS LUN

HYDREF 19

os gwelwch yn dda

DYDDIADAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570)

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
TACHWEDD RHAGFYR	HYDREF 29 TACHWEDD 26	CWM-Y-GLO LLANBERIS	Mrs IRIS ROWLANDS Mr GWILYM EVANS	Llanberis 872275 Llanberis 872034

Llythyrau

PLISMONA CYMUNEDOL

Fel y gwyddoch mae'r sustem
newydd o blismona wedi dechrau ar
y 7fed o Fedi ac mae'r swyddfeydd
ym mhentrefi Deiniolen a Llanrug yn
awr wedi cau.

Bydd yr ardal yn cael ei blismona
gan dîm cymunedol newydd (Tîm
Llanberis/Seiont ac yn sefydledig yn
Llanberis.

Pwrpas fy llythyr yw gofyn i chi
am eich cymorth i hysbysebu'r
wybodaeth yma.

Dyma enwau aelodau Tîm
Llanberis/Seiont:

Rhingyll Derek Roberts
Heddferch Non Parry
Heddwas Phil Griffith
Heddwas Evan Jones
Heddwas David Williams
Heddwas Philip Beynon
Heddwas Dewi Thomas

Bydd modd cysylltu a'r heddlu ar rhif
ffôn: **Llanberis 870222.**

Bydd y swyddogion yma yn
gyfrifol am ardaloedd **Llanberis,
Deiniolen, Llanrug, Pontrug a Nant
Peris. Bydd pentref Bethel yn parhau
o dan reolaeth yr Heddfferch Sera
Evans o'r Felinheli.**

Mawr obeithiaf y bydd y cynllun
newydd o blismona yn effeithiol ac
yn rhoi gwasanaeth ffyddlon i'r
cymunedau a enwir.

Yn gywir iawn,
T. J. EDWARDS
Uwch Arolygydd

Elidir

6 Wynnstay Road
HEN GOLWYN

Clwyd LL29 9DS

Ffôn: (0492) 512990

At gyfeillion Bro'r Eco,

Ym mis Mawrth 1987 cefais ia (a'r
Parch. H. O. Jones, Porthaethwy) y
faint o arwain cwmni o Gymry'r
gogledd, rhai ohonynt o fro'r Eco, ar
bererindod i wlad Iesu Grist. Rwy'n
siŵr fod y profiad yn aros gyda pawb
a fu ar y daith.

Y mae'n fwriad gennyf, gyda'r
Parch. John Lewis Jones, Llandudno,
i arwain pererindod gyffelyb dros y
Pasg 1993. Byddwn yn gadael
Cymru ar Sul y Blodau ac yn treulio'r
Wythnos Fawr yn dilyn ôl troed Iesu
gan ddechrau yng Ngallilea. Wedi

tridiau yn ymweld â Chapernaum,
Nasareth, Cana, croesi Môr Galilea,
Cesarea Philipi a chael cip ar fynydd
Hermon, symudwn tua'r de. Gelwir
yn Jerico a Bethania ac yna
Jerwsalem ple byddwn yn aros
weddill y daith.

Erbyn hynny bydd awyrgylch yr
Wythnos Fawr yn amlwg. Dydd
Gwener y Groglith bydd cyfle i
ymuno gyda'r pererinion o bedwar
ban byd i droedio y Via Dolorosa ac
yna ar Sul y Pasg ymuno yn y
llawenydd i gofio am fuddugoliaeth
y trydydd dydd.

Tra yn Jerwsalem byddwn yn
teithio i Qumran ple darganfu
bachgen o fugail Sgroliau'r Môr

Marw. Esgyn i gopa Massada ple'r
adeiladodd Herod balas, ond lle sy'n
enwog am wrhydri mawr nifer o
Iddewon yn wyneb bygythiad y
Rhufeiniaid. Bydd cyfle i arnofio yn
y Môr Marw.

Ychwanegwch at hyn, Fynydd yr
Olewydd, Gethsemane, yr Oruwch
Ystafell, Bethlehem, Gardd y Bedd
Gwag, Calafia, Mur yr Wylofain a
dyna i chi ddigon i lenwi'r cof tra
byddwch byw.

Os dymuna rhai o ddarllenwyr yr
Eco ragor o fanylion cysyllter â mi
cyn gynted ag sydd modd. Y
dyddiadau yw **4-14 Ebrill, 1993.**

Cofion atoch i gyd,
(Y Parch.) TREFOR LEWIS

Datrys dirgelwch y llun

Dalar Deg

7 Lôn y Meillion

Annwyl Olygydd,

Bangor

A minnau erbyn hyn ar gyrraedd fy
mhen-blwydd yn 87 oed pleser o'r
mwyaf oedd gweld y llun, yn rhifyn
Medi, a anfonwyd gan Mrs Williams,
Rhydfadog, Deiniolen, o griw o
chwarelwyr yn 'Bonc Giarat'.

Cofiaf yn dda y diwrnod y
tynnwyd y llun gan fy mod yn
gweithio yn y chwarel yr adeg honno,
er nad oeddwn ond un ar bymtheg
oed! Cofiaf hefyd i mi a chriw o
rwbwlwyr eraill drio stwffio i mewn
i'r llun a chael ein hel o'r ffordd gan
y dyn camera!

Dyma'r manylion: Côr Elidir yw'r

grŵp yn y llun; Arweinydd —
Thomas Roberts, Llanberis (Twm
Bach 'Merica i'r ardalywyr); Cyfeilydd
— Brwynog Jones, Llanberis.

Enillodd y côr yma sawl gwobr
mewn 'steddfodau gan gynnwys
£100 mewn 'steddfod a gynhaliwyd
yn yr hen bafiliwn mawr yng
Nghaernarfon. Hefyd, yr oeddent yn
cynnal sawl cyngerdd yn y fro, er
budd achosion da.

Roedd fy nhad, Richard Hughes,
Clwt-y-bont (yr ail berson o'r chwith
yn y rhes olaf ond un) yn aelod o'r
côr.

Rhyw fanylion byr fel yna er
gwybodaeth.

Ydwyf,
ROBERT HUGHES
(Charlotte St., Llanberis gynt)



Anfonodd Mr Bob Hughes ddau lun
ei hun i'r Eco. Mae'r llun uchod yn
dangos rhai o hogia Pond Pengaret,
tra bo'r un ar y dde yn dangos R.
Hughes (tad Mr Hughes, awdur y
llythyr) a Jack Wern, y ddau ohonynt
o Lanberis.



GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, criba a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Y busnes 'Dinas' yma gan Deio

Ia, un gêm fawr ydi hi onide! A chi a fi'n talu am y fraint. 'Beth sydd gan hwn eto?', meddech. Wel, meddwl am sefyllfa'r bunt wyf a honno'n codi a gostwng bob yn ail, neu'n hytrach yn gostwng a gostwng ar yn ail. Rhaid imi gyfaddef fod y syniad yn mynd o dan fy nghroen — rhyw ychydig filoedd gyda digonedd o arian i'w daflu yn mentro prynu rhai miloedd o siariau yma a'u gwerthu wedyn acw o fewn ychydig oriau gan obeithio gwneud rhyw geiniog neu ddwy (neu fil neu ddau mwyaf tebyg) yn y broses.

Chwarae ar nerfau'r gwrthwynebydd yw'r nod, debygwn i. Creu sefyllfa o ansicrwydd fel bod mwy a mwy o gyfranddalwyr yn magu ofn ac yn mynd yn ddihyder gan benderfynu gwerthu siariau am unrhyw bris rhesymol cyn i bethau fynd yn waeth. Creu sefyllfa o ofn a diffyg hyder mewn siariau cwmni arall wedyn gan fanteisio ar y sefyllfa hon i werthu siariau'r cwmni cyntaf ar dipyn go lew o elw. Busnes digon hyfryd a thâl da am fentro! Ond i mi, mae rhywbeth yn anfoesol yn yr holl broses. Onid yw'n ffinio r fod yn anonest hyd yn oed ac yn defnyddio ofnau eraill er budd personol? Hawdd yw ateb na ddylid bod yn wan yn y gêm yma ond 'haws dweud na gwneud' wedi'r cyfan.

Dyna Bapur Gwyn y Llywodraeth ar gyfer dyfodol y drefn addysg wedyn. Ofnaf mai creu ofn geir yma eto! Mae gan y Llywodraeth gomisiwn monopoli sy'n gwarchod y cwsmer rhag talu gormod o bris am ei nwyddau oherwydd diffyg cystadleuaeth. Y bwriad ym myd addysg fodd bynnag yw creu monopoli gyda gwrthio cryf i sefydlu cyfundrefn o ysgolion wedi eithrio o ofal llywodraeth leol i gael eu hariannu gan Gorff Canolog o'r Llywodraeth. Ie, meddech, ond llywodraethwyr lleol fydd yn rhedeg yr ysgolion 'newydd' yma, yn bobl busnes, rhieni ag ati. 'Sgersli biliff' chwedl Ifas 'stalwm. Coeliwch chwi fi, unwaith y bydd y mwyafrif wedi penderfynu eithrio bydd y grym ariannu'n mynd trosodd yn llwyr i ofal

yr Awdurdod Canolog a ta-ta fydd hi wedyn i unrhyw ddymuniaid criw o Lywodraethwyr bychan lleol sy'n dymuno bod yn wahanol i weddill Cymru a Lloegr drwy geisio dysgu trwy'r Gymraeg, dyweder.

Y cyfan a geir ar hyn o bryd yn natganiadau'r Llywodraeth yw y dysgir Cymraeg fel pwnc gorfodol i bawb mewn ysgolion dwyieithog (swyddogol neu naturiol) yng Nghymru. Ni welaf unrhyw ymrwymiad o gwbl i ddysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. A pheidid trigolion bro Dyffryn Padarn feddwl am eiliad y ceir parhau gyda'r traddodiad o chwythu offerynnau cerddorol (sydd mor gryf yn y fro) yn rhatach mewn ysgolion wedi eithrio. Dylanwad y farchnad a fydd yn rheoli a dyna ni'n ôl i'r dechrau unwaith eto. Unigolion yn byw'n fras ar fentro gydag arian eraill ond y tro hwn yn mentro gydag addysg ein plant ni. Defnyddio'n plant er mwyn i garedigion y 'Ddinas' bondigrybwyll gael cyfle i chwarae eu gêm unwaith eto.

Yng ngeiriau Hywel Teifi Edwards, dywedwn 'Na' a 'Na' a 'Na' i'r holl syniad ac i athroniaeth y Papur Gwyn. Crochlefn yn glir nad ydym yn fodlon i'n plant gael eu defnyddio eu gêm fudr i ennill elw ariannol i rywun sy'n mwynhau'r tensiwn o gymryd risg. Dylai addysgu gwerin gwlad fod yn hawl sylfaenol nad yw'n ddibynol fyth ar fympwy marchnad arian.

Sefwn gyda'n gilydd a chyhoeddwn, 'Na' yn glir a chlywadwy trwy'r wlad!

ANTUR PADARN

Mewn cyfarfod rhwng swyddogion Antur Padarn a chynrychiolwyr o Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Dosbarth Arfon, a gynhaliwyd a 7 Medi, cytunwyd bod angen llunio strategaeth economaidd a chymdeithasol tymor byr/hir ar gyfer Dyffryn Padarn. Mewn canlyniad bydd Antur Padarn yn ymgynghori yn llawn â Chynghorau Cymuned a chyrrff eraill y Dyffryn yn ystod y misoedd nesaf cyn symud ymlaen i lunio strategaeth am y dyfodol.

Ar 2 Medi bu swyddogion yr Antur yn cwrdd â Dafydd Wigley, A.S. Unwaith eto cadarnhaodd ei

gefnogeth lwyr a'i awydd i gydweithio â'r Antur er lles y Dyffryn.

Fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco mae Awdurdod Datblygu Cymru yn barod i gyflogi person i swydd Swyddog Datblygu. Swydd am 15 awr yr wythnos am 6 mis fydd hon ac fe ddylai pawb sydd â diddordeb mewn ceisio am y swydd anfon manylion amdanynt eu hunain i Swyddfa Awdurdod Datblygu Cymru, Llys y Bont, Parc Menai, Bangor.

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Antur ar nos Iau, Hydref 8, am 7 yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis.

GŴYL WERIN CAERNARFON

Ddydd Sadwrn, Hydref 3, cynhelir Gŵyl Werin Caernarfon. Bydd yr ŵyl boblogaidd hon, a sefydlwyd ers rhai blynnyddoedd bellach, yn cynnwys nifer o atyniadau, yn enwedig yr arddangosfeydd dawnsio ar hyd strydoedd y dre. Bydd Parti Dawnsio Gwerin Caernarfon, sy'n cynnwys nifer o drigolion bro'r Eco, yn un o nifer o bartion fydd yn cymryd rhan yn yr arddangosfeydd bywiog a lliwgar yma. Gellwch weld y dawnsio ar y Maes am 11 y bore a 2.45 y

prynhawn neu yn Stryd Llyn (rhwng Siop Eryri a Stermat) am 11.45 a 3.45. Bydd dawnsio hefyd am 2 yn Neuadd y Farchnad, Stryd y Plas, a phaned i bawb yn Yr Aelwyd am 4.30.

Mae'n bosibl mai uchafbwynt yr ŵyl fydd y Twmpath Dawns yng Ngwesty'r Royal am 8.30 p.m. ble bydd y grŵp Gwerinos yn cyfeilio i'r dawnsfeydd. £2 fydd y pris mynediad a bydd croeso cynnes i bawb, boed hen neu ifanc, i ymuno yn yr hwyl. Gellir cael manylion pellach am y trefniadau gan Idwal Williams, ffôn: Caernarfon 3485.

Apêl Ymchwil y Galon

Cynhaliodd Cangen Caernarfon a'r Cylch Apêl Ymchwil y Galon eu casgliad blynyddol o dŷ i dŷ ar ddechrau mis Gorffennaf. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu o gwmpas yn casglu ac i haelioni pawb ym mro'r Eco am eu cefnogaeth. Y cyfanwm a gasglwyd oedd £3242.59. Dyma sut y casglwyd yn y gwahanol bentrefi — Nant Peris: £8.90; Llanberis: £299.80; Cwm-y-glo: £66.72; Brynrefail: £39.73; Dinorwig: £70.41; Deiniolen: £85.93; Penisarwaun: £73.81; Bethel: £78.02; Llanddeiniolen: £21.57;

Llanrug: £296.43; Rhyd-ddu: £23.38; Waunfawr: £206.98.

Bydd y Gangen yn cynnal Ffair Hydref yng Ngwesty Royal, Caernarfon, nos Iau, 29ain Hydref am 7 o'r gloch, pryd y bydd sic am £6,000 yn cael ei chyflwyno i'r trefnydd dros Gymru. Mae diolch y gangen yn fawr i drigolion ardal bro'r Eco am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Bydd cardiau Nadolig er budd Ymchwil y Galon ar werth gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 4385.

MAMAU LLANBERIS YN 'GWTHIO'R GOETS' I GADW'N IACH



Rhai o'r mamau fu'n 'cadw i fynd i gadw'n iach'.

Roedd wythnos Medi 14-18 yn Wythnos Genedlaethol Ymwelwyr lechyd a'r thema eleni oedd 'Cadw i fynd i gadw'n iach'. Roedd y gweithgareddau yn canolbwyntio ar gerdded fel un o'r ffyrdd gorau o ymarfer ac yn rhywbeth y gall bron bob un ohonom ei wneud. Mae cerdded yn rhad ac am ddim, yn ffordd dda o ymlacio ac hefyd yn ymarfer y gall y teulu cyfan fwynhau gyda'i gilydd.

Wedi i nifer dda o Ymwelwyr

lechyd Gwynedd ddangos esiampl trwy ddringo'r Wyddfa, ar Fedi 5ed, fe drefnwyd taith gerdded 'Gwthio'r Goets' (Pram Push) i famau a phlant dan bump oed drwy Wynedd yn ystod yr wythnos arbennig o ddathlu. Dydd Iau, Medi 17, oedd diwrnod ardal Llanberis ac fe ddaeth nifer o'r mamau, babanod a phlant bach at ei gilydd i ddangos eu cefnogaeth i'r neges ac i wneud yn fawr o'u hamgylchfyd.

GOBEITHION AM WELLA Ffordd

Mae'n edrych yn debygol y bydd symud cyn bo hir i wella'r ffordd yng nghyffiniau Morwel, uwchben Tanycoed, ble bu troadau peryglus yn achosi cryn bryder i drigolion yr ardal ers amser. Deallwn fod cyfarfod diweddar wedi bod rhwng y Cynghorydd Eirug Wyn a Phennaeth Adran Prifffyrdd Gwynedd i drafod y sefyllfa, yn dilyn cryn bwysau ar yr

Adran i weithredu ganddo ef a'r Cynghorydd Noel Davies. Mae nifer ohonom sy'n defnyddio'r ffordd yma yn gyson yn mawr obeithio y gwreiddir y cynlluniau yn fuan. Os na wneir mae'n ymddangos mai mater o amser yn unig yw hi cyn inni weld damwain angeuol ar y ffordd beryglus hon.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Diolch: Dymuna Mrs H. J. Jones, 7 Trem Eilian, ddiolch yn gynnes iawn i'r oll o'r teulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn y ddamwain a gafodd yn ddiweddar. **Croeso:** Croesawn yn gynnes iawn i'n plith Gwyn Hefin, Ifanwy, Einir, Catrin ac Owain Gwyn sydd wedi cartrefu erbyn hyn yn Rhandir. Nid ydynt fel teulu yn ddieithr i ni fel pentrefwyr gan iddynt fod eisoes â rhan amlwg yn y gymdeithas ac â Chapel M.C. Brynrefail tra buont yn trigo yng Nghwm-y-glo. Pob dymuniad da i'r teulu yn eu cartref newydd.

Gwaeledd: Bu nifer o'r pentrefwyr yn cwyno yn ystod yr wythnosau diwethf a bu rhai yn treulio cyfnodau mewn ysbyty. Dymunwn adferiad buan i'r cyfryw rai — Mr O. J. Williams, Bryn Melyn a Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, fu yn Ysbyty Gwynedd a Mr William Evans, Cae Gwyddel, dreuliodd gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac sydd yn awr yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Penodiad: Ein dymuniadau gorau i Mrs Anita Long, Tan yr Onnen, yn ei swydd newydd fel hyfforddwr i athrawon Gwynedd mewn Addysg Awyr Agored.

Llwyddiant: Llongyfarchiadau i Alwen Jane Jones, merch Mr a Mrs Maldwyn Jones, gynt o 1 Rhes Orwig, a wyres i Mrs H. J. Jones, 7 Trem Eilian, ar ei llwyddiant yn ddiweddar yn ei arholiadau nysio terfynol (R.G.N.) yn Ysbyty Gwynedd.

Ein dymuniadau gorau hefyd i holl ieuencid y pentref fu'n llwyddiannus yn y gwahanol arholiadau yn Ysgol Brynrefail ac sydd yn parhau â'u hastudiaethau mewn gwahanol feysydd a rhai yn dechrau ar yrfa golegol.

Cymdeithas Chwiorydd Eglwys M.C. Brynrefail: Cyfarfu'r Gymdeithas nos Iau, Medi 10fed, yn y Ffestri. Cafwyd gair o groeso wedi'r gwyliau gan y llywydd, Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Dwynwen Williams wedi eu sylfaenu ar ddetholiad o gyfrol *Si Hei Lwli*, Angharad Thomas. Cyflwynodd y llywyddes y gŵr gwadd am y noson, sef Mr Geraint George sydd wedi ymgartrefu gyda'i deulu yn y pentref yn Sŵn yr Engan. Cyflwynodd ei hun fel brodor o Ystalyfera, a'i briod yn hannu o Langaffo a llawenydd oedd deall mor gartrefol y teimlai ym mhentref Brynrefail. Cafwyd noson hynod ddiddorol yn ei gwmni yn adrodd ei hanes drwy gymorth sleidiau ar ei ymweliad ag Ynys yr Ia. Diolchwyd iddo am adroddiad bywiog ac addysgiadol gan Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel, a Mrs J. A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 1af, pryd y trafodir trefniadau ar gyfer y Ffair Nadolig. **Priodas:** Ddydd Sadwrn, Medi 12fed yng Nghapel M.C. Brynrefail,

DRAENOG

Cerdded i gadw'n iach fu mamau ifanc Llanberis efo'r ymwelydd iechyd. Tybed faint o les iddynt oedd y brechdanau bacwn (y bu'r mamau a'r ymwelydd iechyd yn eu bwyta) mewn caffi lleol ar ôl y daith?

priodwyd Miss Alwen Jane Jones, merch Mr a Mrs Maldwyn Jones, Nant y Glyn, Llanrug (gynt o 1 Rhes Orwig) â Mr Michael Roberts, mab Mrs Nan Roberts a'r diweddar Mr Idwal Roberts, 3 Rhos Engan, Llangristiolus, Ynys Môn. Gwasanaethwyd gan y Parch. John Morris (gweinidog) a'r organyddes oedd Miss Lowri Prys Roberts. Gweinyddwyd ar y briodferch gan ei chwaer Miss Caron Haf Jones ynghyd â Nerys Bryant, nith y priodfab. Y gwas oedd Mr John Dylan Jones, ffrind y priodfab. Cynhaliwyd y wledd briodasol yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, ac yn dilyn gyda'r hwyr cafwyd parti priodas a disgo. Mae'r priodfab yn dilyn galwedigaeth gyda chwmmi J. P. Wood, Llangefni, a'r briodferch yn nys yn Ysbyty Gwynedd. Bydd y ddau yn ymgartrefu yn 8 Glan Moelyn, Llanrug. Ein dymuniadau gorau iddynt yn eu bywyd priodasol. **Pen-blwydd:** Llongyfarchiadau i Andrew Roberts, 'Rallt, ar ddatlu ei ben-blwydd yn un ar hugain oed ar Fedi 23ain.

Marwolaeth: Ddydd Mercher, Medi 16eg, bu farw Mr Thomas Edwin Jones (gynt o 2 Ffrwd Madog) yn Ysbyty Gwynedd, yn 89 mlwydd oed. Brodor ydoedd o'r Waunfawr ond wedi treulio'r rhan helaethaf o'i ddyddiau ym Mrynrefail yn Y Llys, 12 Tremelien, Ffrwd Madog, a'r deunaw mis diwethaf ym Mhlas Pengwaith. Bu'r angladd cyhoeddus yng Nghapel M.C. Brynrefail ddydd Llun, Medi 21ain dan arweiniad y gweinidog, y Parch. John Morris gyda Miss L. P. Roberts wrth yr organ, ac yn dilyn yn gyhoeddus ym mynwent y Santes Helen, Penisarwaun. Traddodwyd teyrnged i'r ymadawedig gan y gweinidog ac ar ran Eglwys M.C. Brynrefail gan Mr Richard Wyn Evans (blaenor). Cyfeiriwyd at y diweddar Thomas Edwin Jones — Twm Cymro fel yr adwaenid ef ar lafar gwlad — fel cymeriad cywir yn ei waith fel chwarelwr, yn ŵr cadarn tu cefn i'w deulu, yn ŵr o hiwmor unigryw gyda pharch ac edmygedd tuag at aelodau'r gymuned a'r Eglwys yma ym Mrynrefail.

Cydymdeimlir yn ddwys â'r pedwar mab — Mri Dewi, Iorwerth, Tegid ac Emyr Jones a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r gangen leol dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones, Cae Coch. Treuliwyd y noson yn trefnu ar gyfer y cyfarfod a gynhelir yn y Ganolfan, Llanberis, nos Lun, Medi 28ain pryd y cynhelir Arddangosfa Goginio gan Antoinette Hughes o Goleg Glynllifon. Cangen Brynrefail fydd yn gyfrifol am y lluniaeth a'r raffl. Llongyfarchwyd y llywyddes, Mrs Pat Jones, ynghyd â Mrs Carol Houston ar eu llwyddiant yn Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru yn ennill y Cwpan yn Adran Coginio a Chrefft am y marciau uchaf mewn cystadleuaeth dan nawdd Sefydliad y Merched.

Trefnwyd y baned gan Mrs Jean Davies a Mrs Mair Jones ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Myfi Davies, gan Mrs Betty Owen. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 19eg pryd y disgwylir Miss Alice Williams, Caernarfon, i roi adroddiad o'i thaith

i Asia, Awstralia a'r Amerig.

Cylch 'Ti a Fi': Mae Brynrefail yn un o'r pentrefi prin hynny ym mro'r Eco na all ymfalchio bellach fod ysgol yn y pentref. Bu bwlch enfawr o golli'r Ysgol Ramadeg yn 1956 ac yna cau'r Ysgol Fabanod yn 1982. Llawnwydd felly yr haf eleni oedd clywed am weledigaeth dwy o famau ieuainc ynghyd â'u cefnogwyr yn penderfynu sefydlu Cylch Ti a Fi ar gyfer plant ieuengaf y pentref. Fel y cofir gan lawer o'r fro, addaswyd Ffestri'r Capel flynyddoedd maith yn ôl drwy adeiladu rhaniad i greu dwy ystafell ddosbarth ar gyfer disgyblion yr Ysgol Ramadeg pan oedd yr hen Ysgol yn amlwg yn dangos prinder lle. Felly, unwaith eto, dyma wneud defnydd o'r cyfleuster oedd ar gael a chreu dwy ystafell yn y Ffestri — un at wasanaeth y Capel, y Gymdeithas a'i gweithgareddau a'r llall yn feithrinfa ddeniadol a lliwgar, ac mae'r trefnwyr i'w llongyfarch am eu gwaith. Calondid oedd clywed fod

rhwng pymtheg ac ugain o blant yn cyfarfod yn wythnosol ac yn cael mwynhad arbennig wrth gymdeithasu â'i gilydd.

Gwnaed ymdrech i godi arian i sefydlu'r Cylch drwy gynnal Ffair Haf yn ddiweddar, lle gwnaed elw o £187.13 drwy gyfrwng stondinau amrywiol a drefnwyd ar iard yr hen Ysgol Fach. Cyhoeddir yma enillwyr gwobrau raffl noson y Ffair: Delyth Jones, Rachel Williams, Emlyn Trem Eilian, Mrs Moira Ellis, Mrs Pointer, Dylan Jones, Andrew Wyn Jones, Mrs Audrey Roberts, Mrs Ellen Jones, Mrs Dorothy Wager ac Evelyn — yr oll o Frynrefail, Mrs Laura Williams a Mrs Laura Jones, Caernarfon a Jenny Williams, Cwm-y-glo. Estynnir diolch i bawb am y rhoddion, ac i bawb a gefnogodd yr achlysur. Dymuna'r sylfaenwyr, Mrs Catherine Jones, Ty Coch, a Mrs Judith Pritchard, Glyn Afon, estyn croeso cynnes i rieni yn y cyffiniau sydd â diddordeb i'w plant ymuno yn y Cylch.



Y plant a oedd yng nghylch 'Ti a Fi' cyntaf Brynrefail ar Fedi 7fed, 1992.

TYMOR YR HYDREF

Daeth tymor yr hydref ar dro i fyny'r allt,
Pan oedd coedydd yr ardal yn diosg eu gwallt,
A'r gwynt rhwng y cangau, mor ffyrnig ei reg,
A'r haf yn y pellter yn diflannu'n ara' deg.

Gyda pawnsiau mor dyner, a gwres yn yr haul,
A lliwiau bendigedig ar batrwm y dail;
Nosweithiau hydrefol, gaeafol eu ias,
Dim blodau yng ngerddi na lawntydd y Plas.

Yr eirin mor aeddfed, a melyn yw'r grawn,
Y cynhaeaf wedi medi, a'r 'sgubor yn llawn;
Daeth rhwd ar y rhedyn ar lethrau y bryn
A'r griafol yn gwaedu ar greigiau y glyn.

Ar grawcwellt y mynydd, mae'r barrug yn wyn,
A haenen fain denau o rew ar y llyn;
Yr haf wedi marw yn llwyr erbyn hyn,
A mantell y gaeaf dros ysgwydd y bryn.

John V. Morris, Rhianfa, Clwt-y-bont.

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
**ELWYN
PRITCHARD**
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Gwener
10.00 — 3.30
I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch
**Llanberis 870922
neu Bangor 351427**

**MODURDY
PLAS
BACH
CAEATHRO**
Ffôn: Caernarfon 2072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

'Un funud fach . . ?

Dydd Llun Pawb

Deudwch i mi, sut aeth Dydd Llun Pawb yn Ddydd Llun Neb?

Ym Mhen Llŷn y clywais i'r ymadrodd Dydd Llun Pawb i gyfeirio at Ddydd Llun Diolchgarwch. Y trydydd dydd Llun ym mis Hydref fu'r dydd Diolchgarwch yn draddodiadol yn Sir Gaernarfon a Sir Fôn dros y blynyddoedd. Tri chyfarfod gweddi a phawb yn gwneud ymdrech i ddod i ddiolch am holl ddaioni Duw, hyd yn oed os na fuont ar gyfyl oedfa ers y Diolchgarwch cynt. Erbyn hyn, mae'r traddodiad bron â darford yn llwyr. Be ddigwyddodd tybed?

Rhyw feddwl ydw i nad oedd fawr o obaith i'r diwrnod unwaith yr aeth yn Ddydd Llun Pawb. Faint o bobl aeth i fodloni ar yr un dydd hwn am eu dds flynyddol o grefydd? Hyd yn oed os gellir dadalu bod yna rhyw ymdeimlad o ddibynnu ar Dduw am gynhaliaeth, a oedd mewn difri unrhyw obaith i'r traddodiad barhau? A oedd disgwyl i'r Duw Mawr a haedda'i ac a hawliai serch ac ufudd-dod ei bobl fodloni ar grefydd o'r fath?

'Nid ar fara'n unig y bydd byw dyn.' Tybed ai anghofio hynny a wnaethom ar Ddydd Llun Pawb?

JOHN PRITCHARD

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri,
Morwel (Waunfawr 321)

Gohebwy'r Newydd: Sioned a Tristan
Larsen, Bod Afon, fydd yn derbyn
newyddion Ceunant o hyn ymlaen.
Diolch i'r ddau am ymgymryd â'r
gwaith yma yn ogystal a bod yn
werthwyr yr Eco yn yr ardal.



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1/9/92 — £35: Brenda Hughes, 1 Glyn Rhonwy, Llanberis (149); £25: G. Rudkin, Gerafon, Llanberis (24); £15: G. Jones, 9 Maes Padarn, Llanberis (176); £10: John Williams, 6 Rallt Goch, Llanberis (95); £5: Gillian Williams, Troslyn, Llanberis (93).

Os ewch i Ysgol Dolbadarn, peidiwch â dychryn wrth weld clamp o gerrig wedi eu codi y tu mewn i adeilad yr ysgol. Cafodd y plant gyfle i greu cromlech gydag arlunydd preswyl am dri diwrnod cyn diwedd y tymor diwethaf fel rhan o'u thema ar y Celtiaid.

Ffrindiau'r Ysgol — Noson Bingo: Diolch i bawb a'n cefnogodd nos Wener diwethaf yng Ngwesty Dolbadarn ar noson y bingo. Cafwyd noson lwyddiannus iawn a diolch i'r



Dyma lun o'r plant wrthi'n creu'r gromlech ac yna lun o'r gromlech orffenedig.

rhai a'n cefnogodd gyda gwobrau a phrynu tocynnau rafflau.

Capel Coch: Bydd cyfarfod nesaf chwiorydd Capel Coch a Rehoboth yn cael ei gynnal yn festri Capel Coch, ddydd lau, Tachwedd 5 am 2 o'r gloch.

Cyfarfod Plant: Y mae'r Cyfarfod Plant wedi ail ddechrau yn festri Capel Coch ers canol mis Medi. Cynhelir y cyfarfod bob dydd Mawrth yn ystod y tymor ysgol. Mae croeso i unrhyw blentyn o oed ysgol gynradd i ddod i'r cyfarfod. Dylai'r plant ddod yn syth o'r ysgol i'r festri, a bydd y cyfarfod yn gorffen am 4 o'r gloch.

Diolch: Dymuna Megan a Bert, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ar ddathlu eu Priodas Rhuddem. Diolch o galon.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas yr eglwys yn festri St. Padarn ar nos lau, Medi 10. Dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad Mrs Nancy Jones. Croesawyd yr holl aelodau i dymor newydd o'r Gymdeithas gan y llywydd, Mrs Ann Parry-Jones. Trafodwyd y rhaglen oedd wedi ei threfnu ar gyfer y misoedd nesaf gan yr aelodau. Rhoddwyd y raffl gan y gwestwragedd Mrs Nancy E. Jones a Mrs Olwena Morris ac fe'i henillwyd gan Mrs Moreen Lennon. Diolchwyd iddynt gan y llywydd.

Cymdeithas Lenyddol Undebol Llanberis. Ar nos Fawrth, Hydref 27, am 7.30 o'r gloch, ceir 'Ambell Bill' yng nghwmni'r Prifardd Selwyn Griffith. Croeso cynnes i bawb.



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Priodas: Ar Orffennaf 31, priodwyd David Anthony Roberts, mab Mrs Eirian Roberts, 2 Stryd Bethesda, â Marina Davies o Gaernarfon. Bydd y pâr ifanc yn cartrefu yn Tudworth. Pob dymuniad da a hapusrwydd iddynt.



Diolch: Dymuna David a Marina ddiolch i'w perthnasau a'u ffrindiau am yr holl anrhegion a dderbyniant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr iawn.

HETTY HUGHES
(Llanberis, 1907-1984)

Mis Medi — a'i atgofion
Dorodd dant ein telyn ni.
Un a'i gofal dros ei thylwyth
Cofiw'n fyth ei chariad hi.

Bob a'r plant

Cyngerdd Côr Meibion Bangor: Nos Fercher, 23 Medi, cynhaliwyd cyngerdd gan Gôr Meibion Bangor, o dan arweiniad Mr James Griffith, yng Nghapel Coch. Cyfeillydd y côr yw Lowri Prys Roberts, Brynrefail. Fe gafodd y gynulleidfa fwynhau gwledd o ganu a'r caneuon yn amrywio o 'Nant y Mynydd' i 'Cytgan y Pererinion'. Gareth Rowlands oedd yr unawdydd ac fe gafodd *encore* fawr am ei berfformiad.

Trefnwyd y noson gan Mr Gareth Wyn Jones, Dôl Elidir, sy'n aelod o'r côr ac fe'i cynorthwywyd gan Mr T. J. Roberts a Robin Jones wrth y drws a pharatowyd lluniaeth i'r côr gan aelodau o barti 'Lleisiau Lliwedd'. Mae Côr Meibion Bangor yn mynd ar daith i'r Almaen ym mis Hydref ac roedd elw'r noson yn mynd tuag at gostau'r daith.

Yn anffodus nid oedd festri Capel Coch yn agos at fod yn llawn ar gyfer y cyngerdd hwn ond teimlad pawb a fu yno oedd bod hwn yn gyngerdd ardderchog ac fe gawsoch golled os na ddaethoch i wrando ar ganu'r côr yma. Diolch i Gareth am ddod â hwy i Lanberis.

Cronfa Goffa R. H. Owen: Mewn cyfarfod o Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa R. H. Owen a gynhaliwyd nos Fawrth, Medi 15fed, diolchwyd i Bwyllgor Carnifal Llanberis am y rhodd anrhyddeddus o £650 a gyflwynwyd i'r Gronfa. Fel y gwyddom y mae Pwyllgor y Carnifal yn hynod hael bob blwyddyn tuag at achosion teilwng yn yr ardal. Eleni, Cronfa Goffa R. H. Owen oedd un o'r achosion da a dderbyniodd rodd. Diolch yn fawr.

Diolch:

Dymuna Gwylm a Glenys Owen, 9 Stryd yr Wyddfa, ddiolch i'w cymdogion, aelodau'r teulu a'u holl ffrindiau am yr anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Arian.

Dymuna Valerie ac Iolo Griffith, 85 Maes Padarn, ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur geni eu mab bychan, Iwan Siôn. Diolch yn fawr iawn.

Araith a draddododd y Gwalch yng ngwledd briodas ei nith, Rhagnell Huws, Cwrtrinsiwr, Clwyd, â lolo ap Huw o Geredigion.

Gadwch i mi eich rhoi chi i gyd ar eich gwyliadwriaeth cyn dechra: Os oes 'na rhywun yn gwingo wrth y byrdda awydd mynd adra, rwan me ei gyfla fo. Y peth casa gen i fydd rhywun yn trio sleifio allan ar flaenau ei draed wedi i mi fynd i'r hwyl.

A rhag i mi ddechra ar y droed angywir a rhoi fy mhegla ynddi at fy mhenaglinia, cystal fydd bod yn ffurfiol.

Annwyl Iolo a Rhagnell, Mistar a Musus ap Huw ers rhyw awr neu ddwy ac am byth hefyd rydan ni i gyd yn gobeithio. Barchus rieni ar y ddwy ochr, neinia, chwiorydd, cneitherod, ewyrthod a gwaed goes bren, annwyl gyfeillion.

Roeddwn i yn y capal bach yna bora 'ma, yn sêl llongwrs, yn chwilio am y llyfr emynau yng nghanol y niwl mynydd hwnnw, pan ddaeth y briodferch bach dlos honno i mewn yn ei gwyn i gyd. A dyma fi'n cofio am rhyw briodferch arall — llawn mor dlws yr adag honno — oeddwn i'n ddisgwyl i rhyw gapal arall tros ddeugain mlynadd yn ôl erbyn hyn. Mae hi'n dal i fod wrth fy ochr i yn y fan yma, ddim llawn mor newydd erbyn hyn mwy nag ydw innau; yr enaml yn dechra plicio oddiar y congla; wedi mynd dipyn yn fusgrall, cysgodion o beth oeddwn ni, yn dal i frwydro ar y mymryn pension yna sydd yn cael ei ddidol i ni. Ond nid lle i restru gofidia ydy hwn.

A'r adag honno, roedd yna dair ohonyn nhw — y genod yma, ac yr oedd eu tad nhw yn methu yn gliar â chael gwarad a hon; neb yn awyddus i ddod ymlaen i fynd a hi oddiar ei ddwylo fo. Ac yn y diwadd, beth wnaeth o ond cynnig ei feic hefo hi. A'r adag honno, roeddwn i yn perthyn i Hell's Angels Penisarwaun yn digwydd bod, ac yr oedd gan pob un ohonyn nhw feic ond y fi, ac mi roedd o'n beth cas. Pan fydda ni yn mynd i lawr i Fethel gyda'r nos i golbio hen bobol, roedd yr hwyl trosodd erbyn i mi gyrraedd. Yn y diwadd dyma fi'n penderfynu mentro'r beic. Ond erbyn gweld, un gwael oedd o hefyd, yn taflu ei jaun bob munud. Mi swabis i yn y diwadd hefo rhyw hen botiwr am ddau sgodyn ur mewn pot gwydr. Mi fuo rheiny farw wedyn ymhen bythefnos. Mi ges i fargan wael ar y beic, ond mae'n rhaid i mi ddeud fod yr hogan wedi gwneud i fyny am y gollad ar ei chanfed.

A'r adag honno — a dydw i ddim yn bwriadu telynnu am yr hen amsar rhag i'r petha ifanc 'ma ddechra troi eu

llygada tua'r nef fel y bydda nhw ar ôl fy nal i yn dweud yr un hen stori ddwywaith. Yr oedd hi'n rhyw oes Biwritanaidd, cyn i'r micsomatosis pobl 'ma ddechreu rhedag drwyddda ni fel frech goch. Roedd yn rhaid i ddyn grancio ei nyrf am ddyrnodia cyn mentro dweud wrth ei dad ei hun ei fod o'n canlyn neb.

Beth bynnag, rhyw fora dydd Sadwrn dyma fi'n penderfynu dweud wrth fy nhad. Mis Mawrth oedd hi: mi rydw i wedi mynd trwy betha mawr ar fis Mawrth; tasa dim ond y bora 'ma. Roedd hi wedi bod yn scôl yn y nos mi rydw i'n cofio, ac yr oeddwn i wedi aros adra i helpu fy nhad roi darn o grib y to a chydig o lechi a oedd wedi cael ei chwythu i ffwrdd yn y nos, yn eu hola.

Roedd o dipyn o abarth i mi hefyd, er mai fi sy'n dweud na ddylwn i ddim. Gydag iawn roeddwn i i fod ym mynwent Llanddeiniolen yn ymladd ceiliogod. Roedd yna fynd mawr ar ymladd ceiliogod yr adeg honno, a fi oedd y reffari. Roedd gen i drwydded yn y North Wales Coast Cock Fighting League, ac mi roedd ceiliogod y Gors Bach ar ben y league yr adag honno. Chwith eu gweld nhw heddiw; wedi troi at luchio darts — dim hannar cymaint o hwyl.

Ac os ydych chi'n meddwl fod reffari ceiliogod yn 'soft job', dychmygwch alw dau geiliog gêm mawr at eu gilydd yng nghanol y ring i wyneba'u gilydd i egluro y rheola iddyn nhw cyn iddyn nhw ddechra ar eu gilydd. Roedd yn rhaid i rhywun fynd ar ei benaglinia iddyn nhw gael clywad, ac am unwaith neu ddwy mae rhai ohonyn nhw wedi fy nghamgymerid i am geiliog yn yr ystum honno, ac mi rydw i wedi dod oddi yno fwy nag unwaith a fy nghlustia i yn pistyllio gwaedu. A doedd wiw i chi droi eich cefn arnyn nhw, neu mi fyddan wedi mynd i ddechreu canu tros y wlad neu lusgo eu hadennnydd ar lawr yn chwilio am gywenod i'w sathru. A hyd yn oed wedi iddyn nhw ddechreu ar eu gilydd, doedd eich gwaith chi ddim trosodd. Pan oeddwn nhw yn gwrthod gollwng, doedd dim diban i chi waeddi 'break' nes yr oeddach chi'n biws yn eich gwynab, doeddwn nhw yn gwrando dim. Ond fyddwn i yn gwneud dim lol. Mi fyddwn i'n cythru i gorn gwddw yr agosa ata i a tro arno fo, a'i luchio yn ei ôl i'w gornal at ei fanier, a dweud wrth hwnnw am fynd a fo adra a'i bluo fo i wneud potas i'w blant. Wedyn y byddai petha yn dechra mynd yn ffer; cerrig a thywyrch yn dwad i mewn i'r ring, crymanna a phladuria a chaib a

rhaw'r clochdydd, potia hannar galwyn o gwrw o Gors Bach yn dwad i mewn. Amal i waith rydw i wedi gorfod dengid am fy hoedal o fynwent Llanddeiniolen ar ddiwrnod ymladd ceiliogod.

Ond dweud oeddwn i — cyn i chi fy nhynnu fi oddi ar fy mhwnc — roeddwn i ar ben y to — roeddwn i dipyn o dderyn to yr adag honno, ac yr oedd fy nhad, oedd yn dechra mynd ar ei hen sodla yr adeg honno, 'run fath ag yr ydw innau erbyn hyn — yng ngwaelod yr ystol yn cymysgu dipyn o fortar i mi yng ngwaelod y bwcad. A dyma fo'n dwad i fyny rhyw ffon neu ddwy i'w hestyn hi i mi. A phan oeddwn i yn ymestyn fy mraich amdani, dyma fi'n gweld fy nghyfla. 'Mi rydw i'n canlyn rhyw hogan o'r topia 'na,' meddaf fi fel'na mwya sydyn. Dyma fo'n gollwng y bwcad yn glec a spio arna i am yn hir. Toc dyma fo'n gofyn, 'Wyt ti'n ffrindia hefo hi?'

'Beth ydych chi'n feddwl ffrindia?' medda fi. 'Mi rydw i'n meddwl y byd ohoni hi.'

'Wyt reit siwr,' medda fo fel'na. 'Mi ryda ni i gyd yn dwad tros hynna wyddost ti. Ar ôl rhyw hannar can mlynadd, mae'r meddwl y byd 'ma yn gwisgo dipyn yn dena. Mi fydd yn rhaid i ti gael rhwbath heblaw hynny. Ydych chi'n fêts ydy'r peth?'

'Wel ydan am wn i,' medda finna. 'Gwna'n siwr,' medda fo wedyn, 'achos pan ddaw y gwyntoedd croesion 'ma i dy wynab di — ac mi cei di nhw 'run fath a phawb, fedri di ddim o'u sgoi nhw. Pan fyddi di a dy gefn ar y wal yn cael dy golbio gan y byd, mi fydd yn rhaid i chi fod yn fêts yr adag honno, neu i lawr yr ewch chi.'

Wrth gws roddais i fawr o goel ar beth felly y diwrnod hwnnw, ond wedi hynny, mi gefais achos lawer gwaith i gofio beth ddeudodd o. Roedd o'n iawn yr hen fachgan, siwr o fod. Wedyn cyn i mi ei phlygu hi — ac mi rydw i'n sylwi bod yna amryw ohonoch chi wedi cael bolid arna i ers meityn ac yn methu peidio â'i ddangos o. Dydw i ddim yn un am didol cynghorion; mi rydw i ddigon o angan rheiny fy hun, a pheidiad neb a gwaedd, 'ista i lawr bellach'. Tydi fy fformiwla i ddim yn gweithio i bawb. Mi wn am rai sydd wedi ei chynyg hi ac yn ddi-wahân wedi mynd i'r clawdd.

Hyn ddweda i wrth y pâr bach annwyl yma sydd wedi ein swyno ni i gyd. Cofiwch fod yn fêts yr hen blant. Cofiwch fod yn fêts.

Wedyn, oddi wrth yr hen wraig yma a fi, a phawb arall sydd yn bresennol yn ddi-wahân rydw i'n siwr, ac mae hynny yn cynnwys y criw afreolus sydd ar gongl y bwrdd yn y fan'na — lwc dda yr hen blant — lwc dda.

CWM-Y-GLO

Llongyfarchiadau i Steven, 14 Dôl Afon, ac Isabel, Cae Corniog Hir, Caernarfon, ar achlysur eu priodas. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd iddynt.

Gwellhad buan: Dymunwn wellhad buan i Carl Jones, Dôl Afon, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Leslie Orritt a'r teulu, Morannedd, yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn Llanrug. Hefyd Mr Iorwerth Jones a'r teulu, Min-y-don, yntau hefyd wedi colli ei dad ym Mrynrefail.

Ysgol Gymuned Cwm-y-glo: Eleni croesawyd deg o blant bach newydd i ddosbarth Mrs Rita Williams. Maent wedi setlo i lawr yn ardderchog erbyn hyn — gyda chymorth Miss Wendy Smith.

Bydd Mrs Eleri Owen, athrawes bro, gyda ni am dri cyfnod bob wythnos hyd y Nadolig. Diolch am ei gwasanaeth amhrisiadwy hi.

Fel rhan o'i hastudiaeth ar ofal plant bydd Donna Roberts o Lanrug yn treulio bob dydd Gwener gyda'r babanod. Croeso mawr iddi atom.

Cychwynnodd Robert Davidson, Sarah Denny a Jane Ford ar wersi soddgrwth gyda Mrs Jan Barnes.

Mae nifer o blant yr ysgol yn ymddangos yn y gyfres 'Sut a Pham?' sy'n cael ei darlledu bob pwn Mawrth ar HTV am 4.45 p.m. Llongyfarchiadau iddynt.

Bu Carl Jones o'r dosbarth derbyn yn Ysbyty Gwynedd yn tynnu ei donsiliau. Rydym yn falch iawn ei fod yn gwella'n dda erbyn hyn.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Sarah Lynne Jones sydd bellach wedi symud o Gwm-y-glo ac wedi cychwyn yn Ysgol Glanadda, Bangor. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yno.

Ar ddechrau cyfnod newydd fel prifathrawes fe hoffwn ddiolch am yr holl groeso i mi gan staff a phlant a phobl Cwm-y-glo. Rwy'n teimlo'n hapus a chartrefol iawn yma'n barod yn eich plith.

PLAID CYMRU
Anerchiad gan
Dafydd Wigley, A.S.
ar
'Ymgyrch Senedd i Gymru'
yn y Sefydliad Coffa, Llanrug
Nos Fercher, Hydref 7
am 7.30 o'r gloch
CROESO I AELODAU CANGHENNAU
DEINIOLLEN, LLANBERIS, BETHEL,
WAUNFAWR A LLANRUG

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

GERDDI
GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)

PENISARWAUN

I'ch gardd
fod ar ei orau
galwch heibio
neu ffoniwch

870453

J.R. PRITCHARD
BONTNEWYDD

Ffôn:


Caernarfon 3507

Gwneuthurwyr

Ffenestri a Drysau

Ffoniwch am fanylion

a phrisiau cystadleuol



O SIAMBAR SELWYN

Pum can mlynedd yn ôl i'r mis hwn fe laniodd Christopher Columbus ar Ynys Hispaniola yn y Caribi. Mae'n bur debyg i Barti Ddu o Gasnewy' Bach a Harri Morgan fedd yn prowla o gwmpas yr ynys hefyd.

Adweinir hi fel y Dominican Republic heddiw, ac mae gwlad Haiti yn hawlio un rhan o dair o'r ynys. Dyma'r ail ynys o ran maint (Cuba sy' tua hanner can milltir i'r gorllewin yw'r fwyaf o ynsoedd y Caribi).

Mae sôn am Ynsoedd y Caribi yn arwain rhai i feddwl am draethau melyn a choed palmwydd a digonedd o haul crasboeth. Mae hynny'n ddarlun cywir i raddau, ond rhaid cofio hefyd fod y Dominican Republic yn un o wledydd y trydydd byd. Mae'n wir deud hefyd mai hon o bosib yw un o'r ynsoedd mwyaf diddorol yn y Caribi, cyn belled ag y mae golygfeydd cofiadwy yn y cwestiwn. Mae yma dlodi hefyd.

Syndod i mi oedd canfod fod mynydd uchaf'r wlad (sy' gyda llaw tua 19,000 milltir sgwâr) yn 10,417 troedfedd o uchder. Ar yr ynys hon hefyd mae'r llyn mwya' — llyn Enriquillo sy 144 o droedfeddi islaw arwynebedd y môr.

Cyfeirir at Santo Domingo fel dinas hynaf y Byd Newydd, ac yno gellir gweld 'bedd' Columbus. Gwelais 'fedd' arall iddo yn Sevilla y Lwelaidd. Credaf i'r hen longwr gael ei gladdu mewn mwy o lefydd na'r Brenin Arthur hyd yn oed!

Mae'r gwasanaeth trydan yn dueddol o dorri i lawr yno yn bur aml, a rhaid dioddef prinder dŵr yno yn achlysurol hefyd; ond mae treulio amser yn teithio o gwmpas y wlad a gweld y golygfeydd a chyfarfod a'r trigolion yn werth aberthu ychydig o'r cyfleusterau moethus yn sicr.

'Does ryfedd bod llongwyr yn hoff

o rum, a does ryfedd iddynt hwylio'n gynnar tua'r ynsoedd hyn. Mae o'n llifo'n fwy parod na dŵr yma, a chewch botel fawr o rum wyth mlynedd oed am £1.50. Roedd potel o'r un faint o wisgi, gyda llaw yn £9, ac ambell un yn £15. Chwe deg ceiniog oedd galwyn o ddŵr wedi'i buro. Torth yn 25c a dwsin o wyau yn 54c. Cewch fanana am 4c.

Awgrymir i chi gael y brechiadau arferol cyn mynd — typhoid (hen gnawes), a'r polio, a hefyd cymryd cwrs o dabledi rhag malaria (gyda llaw fe gewch chi rai tabledi malaria yn rhatach yn siop y fferyllydd na thrwy gael papur doctor — gwnewch ymholiadau).

Gan fy mod i yn cael cyfle i ymweld â'r Gambia cyn diwedd y flwyddyn, doedd waeth i mi gymryd brech rhag yr 'yellow fever' yr un pryd — ond doedd honno ddim i'w chael ond hwylus. Rhaid oedd gwneud trefniadau i fynd i Landudno i gael y pigiad, a thalu pymtheg punt am y fraint. O ydy, ma' hi'n joban go ddrud diogelu eich hun rhag afiechydon, os ydych am ymweld ag ambell ran o'r hen blaned 'ma — heb sôn am y gost o deithio yno, a tydi ynsoedd hudolus y Caribi, hyd yn oed, ddim yn baradwys i gyd.

Drapia las, mae'n amser i mi lyncu'r tabledi malaria 'na eto, ac mae'r cwrs yn para tan y 'Dolig. Rwy'n siŵr na Harri Morgan yr un dabledi cyn mentro tua'r gorllewin, a chafon nhw yr un brechiad chwaith.

O, wel, Sir Fôn amdani y flwyddyn nesa, os byw ac iach. Does 'na'r un moscito peryglus yn fan'no hyd y gwn i — a dydy'r pili pala ddim yn achosi afiechydon.

O.N.: Fedar rhywun o ddarlennwyr yr Eco roi rhywfaint o wybodaeth am y Gambia i mi? Mi fyddwn yn hynod ddiolchgar.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Clwb Ieuencid: Mae'r Clwb wedi ail ddechrau ers Medi 21ain. Croeso cynnes i unrhyw aelod newydd sydd dros 12 oed. Y mae amrywioi weithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer nos Lun a nos Iau yn Ysgol Tan-y-coed. Cyhoeddir rhaglen y tymor yn y rhifyn nesaf.

Urdd Adran Bentref: Bydd cyfarfodydd wythnosol yr Urdd yn dechrau nos Fawrth, Hydref 27ain o 6 tan 7 o'r gloch yn yr Ysgol. Bydd cyfle i unrhyw blentyn fydd yn chwech oed ar Fedi 1af 1992 neu yn hŷn ymaelodi am £2.50 am y flwyddyn. Bydd diod a chreision ar werth yn wythnosol am 25c. Bydd rhaglen y gweithgareddau ar gael ar noson ym maelodi.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu'r diweddar John Griffiths, Cerrig Gwynion, a fu farw Medi 10 yn 87 oed.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Awst mewn pwyllgor a'r enillwyr oedd: 1, Helen Owen, Penisarwaun; 2, Wendy Philips, Penisarwaun; 3, H. Hughes, 47 Maes Gwynedd, Caernarfon. Gobeithir trefnu Noson Calangaeaf ar nos Wener, Hydref 31ain. Bydd cystadlaethau fel arfer — llun, ysgwg, y wisg orau, jac lantarn, ysgub, teisen a swynion. Bydd diod, cŵn poeth a raffl ar werth. Croeso cynnes i bawb.

Y mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar am weld yr Ysgol Gymunedol newydd yn agor. Bwriedir trefnu noson gymdeithasol er mwyn i chwi'r pentrefwyr gael gweld yr

adeilad hardd a chytuno, gobeithio, bod yr holl ymdrech i godi'r arian wedi bod yn werth yr ymlafnio.

Ysgol Tan-y-coed: Braf cael croesawu 15 o blant newydd i'r ysgol ar ddechrau'r tymor hwn — mae hyn yn argoeli'n dda i'r ysgol newydd.

Mae Gareth a Siân Griffiths a Ceri Howard yn y dosbarthiadau iau a Deudded Disgybl Annwyl yng ngofal tyner yr athrawes babanod, Mrs Ann Thomas. Mae dau fachgen wedi cychwyn yn yr ysgol ychydig ddyddiau cyn gwyliau'r haf — James a Christopher Eaglestone sydd wedi dod yr holl ffordd o Awstralia bell. Maent yn treulio'r tymor hwn yn y Ganolfan Iaith ym Maesincla, Caernarfon. Pob dymuniad da i chwi oll.

Ysgol Sul Bosra: Ail gychwynodd yr Ysgol Sul, wedi seibiant dros wyliau'r haf, ar fore Sul, Medi 6. Hyfryd oedd croesawu y rhai ieuainc a'r rhai hŷn unwaith yn rhagor. Gobeithir cynnal gwasanaeth o ddiolch ar fore Sul y Diolchgarwch am 10 a.m. Y mae pump o'r aelodau hŷn yn mynychu dosbarthiadau derbyn o dan ofal y Parchedig Philip Barnett, Tregarth. Bwriedir eu derbyn yn gyflawn aelodau o Eglwys Crist gan gobeithio y byddant yn ffyddlon i ddysgeidiaeth eu Harlgwydd yn y dyfodol.

Y Cylch Meithrin: Dymuna'r cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor ddiolch i bob un a gyfranodd arian tuag at yr apêl i gael offer newydd i'r Cylch Meithrin. Bydd yr apêl yn cau yn swyddogol ar y dydd olaf o fis Medi.



Plant newydd adran iau Ysgol Tan-y-coed — Gareth a Siân Griffiths gyda Ceri Howard.



Duddeg disgybl newydd adran y babanod: Owen, Luke, Jody, Alun, Osian, Jonathan, Jason, Rosie, Melanie, Catrin, Nikki, Jess.

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

SIOP

Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

YSGOL BRYNREFAIL TAITH YSGOL I LYNLLIFON

Dydd Gwener, Mehefin y 5ed, aethom ar drip i Glynllifon dim ond blwyddyn 1 oedd yn cael mynd. Aethom ar fws dau lawr, bws leuan Williams o Ddeiniolen oedd o. Roeddem wedi cael ei gwasgu yn y bws roedd tri yn gorfod eistedd mewn sêd. Roeddwn i yn eistedd gyda Eryl a Richard.

Pan wnaeth y bws cyrraedd Glynllifon 'doedd y bws ddim yn ffitio trwy'r fynedfa oherwydd roedd y bws yn rhy uchel a tarodd top y bws y fynedfa! Aeth pawb allan o'r bws a cherdded i lawr.

Yn gyntaf aethom i weld y gerddi. Yn y gerddi roeddent wrthi yn adeiladu tŷ gwydr, roedd tatws, moron a phob math o bethau yn yr ardd.

Wedyn aethom i weld y moch, roedd yna ogla ofnadwy yn cwt y moch. Roedd yna lawer o foch bach yno. Wedyn aethom i weld y gwartheg roedd yna lawer o wartheg yn y caeau. Dangosodd dyn i ni sut i odro gwartheg.

Aethom wedyn i weld coed ac roeddem yn gorfod cyfri cylchoedd i weld faint oedd oed y coed. Ar ôl hynny aethom ymlaen i Fort Wiliemberg. Aethom trwy dwnnel a chyrhaeddais Fort Wiliemberg ac roedd yna ddyn gyda gwallt hir yn siarad ac yn dweud hanes Glynllifon wrthym.

Ar ôl hynny fe aethom i weld y defaid yn cael eu cneifio. Ar ôl hynny roedd hi'n amser cinio ac aethom ar y tractor a gwelsom y Plas. Ar ôl cyrraedd diwedd y daith aeth pawb oddi ar y tractor ac roeddem yn mynd

i weld injan stêm. Wedyn roeddem yn gorfod disgyl am y plant eraill. Ar ôl iddyn nhw ddwad aethom i'r bws i fwyta'n cinio.

Ar ôl cinio roeddem yn cael mynd i lan y môr Dinas Dinlle. Yn Dinas Dinlle roedd Gavin, Jimmy a fi wedi ffeindio ci dŵr wedi marw. Cododd Gafin y pysgodyn a'i daflu yn ôl i'r dŵr. Roedd llawer o blant wedi cael eu taflu i'r dŵr. Wedyn cawsom dynnu ein llun o flaen awyren smal. Ar ôl cerdded yn ôl aethom i siop, prynais wn dŵr, band i roi rownd fy ngarddwrn a hefyd cefais slush puppie bach. Wedyn aethom yn ôl i'r bws. Ar y ffordd adref roedd y genod yn canu yr holl ffordd adref. Cafodd Blwyddyn Un drip i'w gofio!

GETHIN GRIFFITHS, 71

DIWRNOD MABOLGAMPAU

Ar Fehefin 16, 1992, roedd mabolgampau'r Ysgol yn cymryd lle ar gaeau'r ysgol. Yn anffodus roedd prif athletwr yr ysgol, Colin Jones, wedi cael anaf i'w benglin wrth iddo anafu gelyn, fel yr anaf a ddioddefodd Paul Gascoigne y flwyddyn ddiwethaf. Mae Colin bellach yn gorfod defnyddio baglau a strapiau am ei goes.

Fe lywodraethwyd y sprint i flwyddyn 7 gan Mark Davies; yn y bicell i enethod blwyddyn 2 enillodd Catrin Jones yn gyfforddus. Pan ddaeth yn amser i gystadleuaeth y naid uchel i fechgyn blwyddyn 2 fe fethodd Ambrose Choy a chlirio 1m 40, ond llwyddodd Arwel Ellis o Fethel ei glirio ar ei ail gynnig. Perfformiad da, ac fe ddaeth Arwel yn drydydd yn Chwaraeon Gwynedd ym Mangor.

Bu dihangfa lwcus i Mr Eurwyn

Roberts (Maths) wrth i ddisgen Gareth Cook ei fethu o ychydig fodfeddi!

Yn y 100 medr i fechgyn roedd ras gyffrous a llwyddodd Martin Parry ac Ambros Choy i fynd drwodd i Fangor. Roedd pawb yn y safle 1 ac 2 yn mynd drwodd i Fangor.

Fe orffennwyd y pnawn gyda rasmus cyfnewid. Bu'r chwaraeon ysgol yn chwaraeon glan, di-gwffio a chyfeillgar. Dyma'r pwyntiau mewn trefn — 1af: Gwyrfa, 366 o bwyntiau; 2il: Eilian, 352; 3ydd

Eryri, 333; 4ydd: Elidir, 296.

Y bachgen a enillodd fwyaf o bwyntiau (Victor Ludarium) oedd Jonathan Davies o flwyddyn 4 a'r ferch a enillodd fwyaf o bwyntiau (Victrix Ludorum) oedd Catlin Wroe o flwyddyn 3.

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y chwaraeon, ac i'r adran Addysg Gorfforol am yr offer. Diolch i'r athrawon am drefnu'r gwahanol chwaraeon, ond y diolch mwyaf i'r rhai a fu'n cystadlu.

HUW TEGID ROBERTS, 21

DRAENOG

Wrth glywed sŵn ei 'Blipyr' rhuthrodd aelod ifanc brwdfrydig o Frigâd Dân Llanberis draw i'r Orsaf ddwy waith, a neb arall ar gyfyl y lle, cyn i'r teulu sylweddoli mai Blipyr ei fam oedd yn galw'r nyrs at ei gwaith.



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn (0286) 77787

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

ECO'R IFANC

JÔCS

Be wyt ti'n galw anifail hapus?
— HAPIpotamus.

Pa raglenni teledu yw y rhain

**FNJIEI
NY
MOBABN**

**Y
TLSO
RETHIMIN**

**ET
NYY
LWCT**

**TEWCHARR
LLAC**

**LSIIC
A
CLSA**

IBBOYBB

Be wyt ti'n galw anifail sy'n cysgu yn y cae heb ganiatâd?
— HIPIpotamus.

Be wyt ti'n galw anifail sy'n neidio ar un goes?
— HOPIpotamus

Ha ha! Ha ha

Be 'da chi'n galw Indiad Cochion sy'n byw yn Iwerddon?
— TOM O'HÔC.

Gwibdaith Y Foelas

Cawsom adroddiad byr o wibdaith ddiweddar aelodau Cartref Y Foelas, Llanrug. Bu'r henoed yn ymweld â Llanberis, ble cafwyd amser pleserus iawn a bwyd da. Roedd pawb yn ddiolchgar iawn i Mrs Thomas a'r staff ac yn ddiolchgar fod y tywydd wedi dal yn sych. Mae'n amlwg fod y profiad wedi ysbrydoli un o'r henoed, a luniodd gerdd i'r achlysur.

Aeth henoed y Foelas ar wibdaith, i'r hen bentref bach gorau'n y byd, Heibio i'r Llyn
A pasio Pen Llyn,
A chyrraedd y gwesty mewn pryd.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

Emyr Jones
**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**
Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau
**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



BRYN
(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisïau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

**GERAINT
OWEN**


Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**
Ffôn:
Waunfawr 552


**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR,
LLANRUG**
Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.
Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

**BETHEL
SCAFFOLDING**



BRYN Y CHWILOG, BETHEL
Ffôn: Portdinorwig (93) 670325

- ★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus
- ★ Prisiau cystadleuol
- ★ Ffoniwch i gael estimate yn rhad ac am ddim

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Cywiriad: Yn rhifyn Medi rhoddwyd cyfeiriad y diweddar Mr David Oliver Owen fel 13 Cremlyn. 20 Cremlyn oedd cartref Mr Owen wrth gwrs. Ymddiheurir am unrhyw drallod a achoswyd oherwydd y camgymeriad.

Diolch: Dymuna Gwilym, Kathryn, Sian a Kate, Y Ddôlwen, ddiolch o galon am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniwyd tra roedd Dafydd Llywelyn yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i'w ffrindiau am fod mor ffyddlon iddo. Mae Dafydd ar hyn o bryd mewn uned arbennig yn Bury ac yn gwella bob dydd.

Cylch Meithrin: Cyfarfu'r pwyllgor newydd am y tro cyntaf ar Fedi 16eg o dan arweiniad y llywydd, Mrs Jennifer Roberts, Y Ddôl. Ymysg yr eitemau a drafodwyd penderfynwyd cynnal Taith Gerdded Noddedig o amgylch y pentref i'r plant, y rhieni a'r athrawon, bnawn Llun, Hydref 12fed, gan adael y Caban Meithrin am 1 o'r gloch (bore Hydref 13eg os yn bwrw glaw) i godi arian i'r Cylch.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r gangen ar nos Fercher, Medi 9fed, yn Neuadd yr Ysgol Gynradd, dan lywyddiaeth Mrs Rhian Hughes. Cafwyd cynulliad dda a phleser oedd cael croesawu nifer o aelodau newydd. Gwirfoddolodd y canlynol i gynrychioli'r gangen ar is-bwyllgorau — yr anabl: Mrs Nora Parry a Mrs

Gwyneth Jones; celf a chreffft: Mrs Wendy Grail a Mrs Joyce Gaffey; chwaraeon: Mrs Jennifer Roberts a Mrs Nan Rowlands. Treuliwyd orig ddifyr yng nghwmni Parti Clychau'r Grug dan arweiniad Mrs Glenys Griffiths. Diolchwyd i'r parti gan Mrs Gwyneth Jones. Paratowyd lluniaeth ysgaf i'r parti a'r aelodau gan y pwyllgor ac enillwyd y raffl gan Mrs Siân Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf o'r gangen nos Fercher, Hydref 14eg, yn Neuadd yr Ysgol am 7.30 yng nghwmni Ann Morgan o 'Tearfund' a bydd yna fwrdd gwerthu 'Tearfund'. Croeso i unrhyw un ymaelodi â'r gangen.

Priodas Arian: Llongyfarchiadau i Wil a Nora Parry, Wilnor, Tan y Buarth ar ddatlu eu Priodas Arian ar Fedi 16eg.

Clwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon: Ail ddechreuodd y Clwb ar ôl gwyliau'r haf ar nos Fawrth, 22 Medi. Helfa Drysor oedd wedi ei ddarparu ar gyfer noson gyntaf Clwb gan Myfanwy a Gwen Jones. Gorffennwyd y noson gyda barbeciw ar Fferm Carreg Goch, Bethel.

Mr Iorwerth Williams oedd yn ein diddanu ar nos Fawrth, 29 Medi.

Bydd y Clwb yn cyfarfod bob nos Fawrth yn Neuadd Goffa Bethel ac mae croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fwy o fanylion gellir cysylltu â Myfanwy ar Felinheli 670071 neu Aled ar Felinheli 670312.

MENTER NEWYDD

Am 5 o'r gloch, nos Wener, Medi 18fed, ail-gynnwyd un o hen draddodiadau Bethel — agor y siop sglodion. Er fod yr arwydd wedi aros, bu drws yr hen 'gwt-hers' ar gau am gryn amser. Clywyd ambell si fod yr adeilad wedi ei werthu ac at nifer o wahanol ddefnyddiau. Yr hyn sy'n galonogol yw mai bachgen, yn enedigol o'r pentref, sydd wedi cymryd at yr awennau. Yn y Groeslon mae cartref John Pritchard erbyn hyn, ond yn ei amser bu'n arweinydd ieuenctid a rheolwr tîm pêl-droed y pentref. Dymunwn yn dda i John yn ei fenter, gan obeithio y bydd yn derbyn pob cefnogaeth. Y mae'r cynnyrch yn flasu tu hwnt — gyda'r pysgodyn yn werth ei fachul!



Gari, Iwan a Delyth, y tri cwsmer cyntaf wedi ail-agor siop sglodion Bethel. Ydy Iwan yn rhyfeddu at faint y pysgodyn?

Capel y Cysegr: Nos Lun, Medi 14, cynhaliwyd noson gymdeithasol yn Y Cysegr gyda ieuenctid gofalaeth y Parch. W. R. Williams yn cymryd rhan. Cafwyd noson ddifyr dros ben gyda nifer dda wedi troi i mewn, yn wir bu'n rhaid symud i'r Capel gan fod y Festri yn rhy fychan. Gwnaed casgliad o £54 tuag at Apêl Brasil.

Ymddiheuriad: Dylai'r stori yn yr Eco diwethaf am wobrwyo plant o'r ysgol fod wedi nodi mai gwobr Mr W. G. Ellis, 15 Cremlyn enillodd Nia Watkin Jones am waith arbennig yn ystod y flwyddyn, ac mai gwobr y Prifardd Selwyn Griffith a enillwyd gan Mathew Garnett am y cynnydd gorau yn yr ail iaith.

CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 4652

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â


TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

OSMOND SHAW DEINIOLLEN



GWERTHU

- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

Geni • Bedyddio • Isgod • Priodas

✱ Achlgyr arbennig? ✱
✱ Anrheg uni-grgw? ✱
Beth am un o sampleri

PWYTHAU CAIN

✱ Cynllunir pob samplir yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✱ Hefyd gwniadwaith o bob math guneud dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

✱ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o farddoniaeth

Bistro
43-45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn 871278



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghapel y Rhos i drefnu rhaglen ar gyfer y tymor 1992-93. Swyddogion am y tymor yw — Llywydd: Parch John Morris; Islywydd: Mr John W. Owen; Trysorydd: Mrs M. E. Jones; Ysgrifenyddion: Mrs Jean Davies a Mrs Mai Parry. Bydd y cyfarfod cyntaf ar nos Fercher, 4 Tachwedd, yn festri Capel y Rhos.

Y Seindorf: Llongyfarchiadau i'r Seindorf am ddod yn ail ym mhen-campwriaeth Bandiau Prës Gogledd Cymru 1992, ar ddydd Sadwrn, 19 Medi. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ym Mae Colwyn a chymerodd pump seindorf ran yn adran 2/3. Y seindorf fuddugol oedd Seindorf United Co-op, Crewe, gyda 188 o bwyntiau, gyda Seindorf Arian Llanrug yn ail gyda 184 o bwyntiau. Yn y trydydd safle roedd Seindorf Royal Buckley gyda 182 o bwyntiau.

Da iawn chwi hogia a genod a diolchwn hefyd i'r ddau bwyllgor a'r swyddogion am eu hymroddiad i wahanol achosion y seindorf yn yr wythnosau a'r misoedd diwethaf. Pob lwc yn awr i'r seindorf ym mhencampwriaeth Bandiau Prës Gwledydd Prydain ym Mhrestatyn (Pontins) ar 24 Hydref.

Merched y Wawr: Agorwyd tymor newydd o'r gangen ar Fedi'r 8fed gyda Nan Humphries yn llywyddu. Yr ysgrifennydd yw Bethanne Williams a'r trysorydd yw Myfanwy Parry. Croesawyd Mair Roberts, llywydd y rhanbarth, atom. Daeth â'r dystysgrif hardd a enillodd Rhanbarth Arfon yng Ngŵyl Ddiwylliannol Merched y Wawr ym Mhontrhydfendigaid. Cyfrannodd cangen Llanrug at y fuddugoliaeth drwy ymdrech Mary Parry a Julie Jones yn yr adran Gelf a Chrefft, a'r tîm dawnsio gwerin a'r côr yn dod yn gyntaf.

Treuliwyd noson hynod ddifyr yng nghwmni Miss Margaret Griffith, Caerhun. Aeth â ni yn ôl tua canrif a chawsom gipolwg ar arferion coginio gwraig y tyddyn. Clywsom am draddodiadau diddorol eraill y cyfnod. Hwyrach y dylem ni werthfawrogi llawer mwy ar ddyfeisiadau modern!

Diolchwyd iddi gan Mrs Lovatt. Gwesteion y te oedd Charlotte Evans, Eirlys Williams, Gwenda Roberts a Carys Wynne. Anwen Owen dalodd ddiolch iddynt, a hi hefyd a enillodd y raffl.

Bydd y gangen yn ymweld â Theatr Gwynedd i weld 'Y Gosb Ddi-ddial' ar Hydref 27. £2 yn unig yw pris y tocynnau ar y noswaith yma. Enwau ac arian i Gwenda Roberts, Lleifior, erbyn nos Fawrth, Hydref 13eg.

Cardiau Nadolig: Mae'r Cyngor Ysgolion Sul wedi cynhyrchu cardiau Nadolig Cymraeg. Gellwch eu

harchebu trwy gysylltu â Meirwen Lloyd. Y pris yw £2 am ddwsin.

Plaid Cymru: Dymuna swyddogion y gangen ddiolch i drigolion yr ardal am eu cefnogaeth i'r perfformiad gan Theatr Bara Caws yn neuadd Ysgol Brynrefail ar Fedi 16. Cafwyd noson lwyddiannus iawn. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Gwladys M. Jones, Y Dalar Deg, a'r enillwyr oedd: 1, Alma Jones, Waunfawr; 2, Ann Lloyd Griffith, Hawddamor, Llanrug.

Ar nos Fercher, Hydref 7, fe ddaw ein Aelod Seneddol, Dafydd Wigley, atom i annerch ar 'Ymgyrch Senedd i Gymru'. Gwahoddir aelodau canghennau Deiniolen, Llanberis, Bethel, Waunfawr a Llanrug i'r cyfarfod yma a gynhelir yn y Sefydliad Coffa Llanrug am 7.30 o'r gloch.



Lola Bayldon Jones, Treflys, Ffordd yr Orsaf, a ddewiswyd yn fyfyrwr gorau ail flwyddyn y cwrs trin gwallt yng Ngholeg Technegol Gwynedd. Daeth y llun i law wedi i ni ei llongyfarch yn y rhifyn diwethaf.

Diolchiadau:

Diolch i Gwyndaf ag Eileen Jones, Stad Glanffynnon am ddosbarthu'r Eco yn Stad Glanffynnon ers y dechrau. Diolch am eu gwasanaeth. Dymunwn yn dda i Mrs Jaques, 54 Glanffynnon sydd yn cymryd y swydd drosodd.

Dymuna Nan Williams, Carys ac Arwel, 2 Ffordd Glanffynnon, ddiolch yn gywir iawn i'w teulu, ffrindiau ac yn arbennig y cymdogion am yr holl garedigrwydd a chydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Gwilym, gŵr, tad a thaid annwyl iawn. Diolch am y llu cardiau a'r rhoddion hael tuag at Feddygfa Drs Johns, Jones, Parry a Williams. Diolch arbennig iawn i'r Parch. John Morris a'r Parch Eifion Williams, i'r organyddes Mrs N. Lovatt, a hefyd i swyddogion y Capel Mawr. Ein diolch diffuant i'r meddygon teulu a'r nyrsus lleol. Hefyd i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau trylwyr.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar nos Lun, Medi 21, yn y Caban. Croesawodd y llywydd, Mrs Buddug Jones, yr aelodau wedi gwyliau'r haf. Croesawyd hefyd ddwy aelod newydd, Mrs Eileen Jones a Mrs Glenys Roberts. Da deall bod Mrs Jennie Williams, Rhydfadog, yn gwella a'i bod wedi dod adref o'r ysbyty. Penderfynwyd anfon rhodd o'r gangen i Gronfa Goffa Saunders Lewis. Fe dreuliwyd noson ddifyr yn 'Galifantio' hefo Rol Williams, Waunfawr, ac fe ddiolchwyd iddo gan Mrs Eirlys Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Megan Morris, Mrs Alice Griffith a Mrs Iona Richards ac enillydd y raffl oedd Mrs Margaret Roberts.

Cyngor Eglwys Deiniolen: Fe gynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn Festri Cefn-y-waun ar nos Lun, Hydref 12fed, am 7 o'r gloch.

Cystadlaethau Snwcer: Dyma ganlyniadau y cystadlaethau eleni — Cwpan Coffa Arthur Owen: 1, John Williams; 2, John Harris. Cwpan Coffa Idwal Jones (Biliards): 1, John Williams; 2, Alwyn Williams. Tarian Lockwell: 1, John Harris a John G. Jones; 2, John Williams a Martin Williams. Dymuna'r pwyllgor a'r aelodau ddiolch i deulu y diweddar Mr Arthur Owen a Mr Idwal Jones am y rhodd o gwpanau er coffadwriaeth am ddau o gynaelodau o'r Clwb. Hefyd diolchir i Lockwell Electrics am rodd o Darian i'r Clwb. Diolch i bawb a fu'n cystadlu gan wneud y nosweithiau yn rhai llwyddiannus.

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi, Deiniolen, a'r Cylch yng Nghapel Ebeneser, ar nos Wener, Hydref 30ain am 6 o'r gloch; a dydd Sadwrn, Hydref 31ain, am 12 a 6 o'r gloch.

Bydd pwyllgor yr eisteddfod yn cyfarfod ar nos Wener, Hydref 9fed am 7 o'r gloch yn yr Ysgol.

Llongyfarchiadau i Dyfed Whiteside Thomas ar ei benblwydd yn 18 oed ar Hydref 4ydd.

Grŵp Gwerin y Coed: Mae noson arbennig o hwyl a sbri wedi ei threfnu ar gyfer plant rhwng 6-12 oed yn Ysgol Gwaun Gynfi, ar nos Wener, 9 Hydref, rhwng 6 ac 8 o'r gloch. Bydd Eric Madden o'r Fachwen yno i adrodd storïau. Pris mynediad fydd 50c ac fe rennir yr elw rhwng Oxfam a Grŵp Gwerin y Coed. Croeso cynnes i bawb.

Cyfarfod y Plant: Erbyn hyn y mae'r Cyfarfod Plant a gynhelir yn festri Ebeneser wedi ail ddechrau. Mae croeso i unrhyw blentyn o oed ysgol gynradd i ddod i'r cyfarfod sy'n cael ei gynnal bob pawn lau yn ystod y tymor ysgol. Fe ddylai'r plant ddod ar eu hunion o'r ysgol, un ai am 3 o'r gloch neu am 3.30.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, drwy hyn o eiriau ddatgan ei diolchgarwch gwresocaf i'w theulu, ffrindiau a chymdogion a phawb a fu yn ymweld â hi, ac yn holi amdani, tra yn Ysbyty Gwynedd ac wedi iddo ddod adref. Diolch arbennig i Elaine a staff a staff Shop Gwallt, Llanrug; hefyd am y llu cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch hefyd am y gofal mae'n ei gael adref gan ei theulu a'i ffrind. Diolch o galon i chwi oll.

Dymuna plant y ddiweddar Martha Williams, 46 Pentre Helen, ddiolch o waelod calon am y cydymdeimlad a fynegwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam mor annwyl. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol tuag at Feddygfa Deiniolen. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Andrea a Kelvin, Arfon House, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion, am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch, Samantha Ann. Diolch i bawb.

Dymuna Nan Williams, Carys ac Arwel (2 Ffordd Deiniol) ddiolch o galon i ardalwyr Deiniolen a'r cylch am bob arwydd o gydymdeimlad a'r caredigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl, sef Mr Gwilym D. Williams, 2 Ffordd Glanffynnon, Llanrug.



THE
SEIONT
MANOR
HOTEL

LLANRUG
Ffôn: 673366

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.
I glywed mwy Ffoniwch 673366 a gofynnwch am Maggie

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell



ERYRI
ORGANIG

LLANFAGLAN

Ffôn: C'fon 76905

Rhwng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaitth ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

DINORWIG

Eisteddfod Bantref: Fe ddylai testunau'r eisteddfod ddod i law o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf. Eleni cynhelir yr eisteddfod ar nos Fawrth, Rhagfyr 1, o 6.30 o'r gloch ymlaen. Felly, gwnewch nodyn o'r dyddiad yn eich dyddiaduron. Fel arfer gobaith y trefnyddion yw y bydd tipyn o fynd ar y cystadlu ac y cawn eisteddfod i'w chofio eto eleni.

Gŵyl Ddiolchgarwch: Bydd Eglwys St. Mair yn cynnal eu Gŵyl Ddiolchgarwch ar brynhawn dydd Sul, Hydref 18fed, am 3.45. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Geraint Edwards a fu yn offeiriad yn y plwyf yn y saithdegau. Edrychwn ymlaen i'w groesawu'n ôl i Eglwys St. Mair. Fel arfer estynir croeso cynnes i aelodau enwadau eraill i ymuno yn yr Ŵyl. Ni fydd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 10 y bore ar y Sul hwnnw. Dyma restr blodau'r allor am fis Hydref — 4, 11 a 18: Mrs Iona Phillips, 12 Maes Eilian; 25 a Tachwedd 1: Mrs M. Fleming, 1 Maes Eilian. Ar hyn o bryd mae'r aelodau yn casglu arian tuag at waith Cymdeithas y Beiblau. Bydd angen dychwelyd yr amlenni cyn dydd Sul, Hydref 11. Diolch ymlaen llaw i bawb am eu haelioni.

Grŵp Gwerin y Coed: Mae noson arbennig o hwyl a sbri wedi ei threfnu ar gyfer plant rhwng 6 a 12 oed yn Ysgol Gwaun Gynfi, ar nos Wener, 9 Hydref, rhwng 6 ac 8 o'r gloch. Bydd Eric Maddern o'r Fachwen yno i adrodd storïau. Pris mynediad fydd 50c ac fe rennir yr elw rhwng Oxfam a Grŵp Gwerin y Coed.

Sylwen mai ar nos Lun (yn hytrach na nos Wener) y bydd Grŵp Gwerin y Coed yn cynnal eu cyfarfodydd yn ystod y misoedd nesaf, a hynny rhwng 6 a 7.30. Yn ystod yr haf bu'r Grŵp yn treulio wythnos o wyliau yn Lligwy, Ynys Môn. Dyma argraffiadau Jennifer Corless o'r wythnos: 'Cafwyd wythnos braf a chyfle i wneud pob math o weithgareddau. Fe aethom i Barc Gwylt Gogledd Cymru a gweld pob math o anifeiliaid. Bu i ni gerdded i'r llyn yn ein wellingtons i chwilio am bysgod a llyffantod. Yn y camp i gyd roedd 60 o bobl a rheiny o bob rhan o ogledd Cymru. Cysgodd rhai o'r plant allan ar y traeth o dan olau'r sêr yn eu sachau cysgu.' Diolch i Jennifer am roi blas o'r wythnos i ni.

Gwasanaeth Undebol Diolchgarwch: Yn dilyn llwyddiant y gwasanaeth undebol a gynhaliwyd yn ystod y Nadolig y llynedd a'r Pasg eleni, fe gynhelir gwasanaeth undebol arall i ddathlu Gŵyl Ddiolchgarwch ar brynhawn dydd Llun, Hydref 19eg am 2. Yn garedig iawn mae swyddogion Capel Dinorwig wedi cytuno i gynnal y gwasanaeth yn y festri. Mawr hyderir y bydd cefnogaeth lawn i'r gwasanaeth hwn.

Cydnabod gwasanaeth clodwiw: Yn ddiweddar mynegodd Mr David J. Thomas ei awydd i roi i'fyny ei swydd fel ysgrifennydd Capel Saris. Bu'n cyflawni'r gwaith am dros 30 mlynedd, a hynny'n hynod drwyadl a chydwybodol. Fel gwerthfawrogiad o'i lafur diflino cyflwynwyd rhodd yr eglwys iddo gan y cyn-weinidog, y Parchedig Ifor L. Williams, ar Fedi 6ed. Cyd-ddigwyddiad hapus oedd ei fod yntau yn dathlu 40 mlynedd yn y weinidogaeth ar yr un Sul ac yn gwneud hynny yn Sardis lle y dechreuodd ar ei yrfa. Cyflwynwyd tusw o flodau iddo ef a Mrs Williams gan Mrs Megan P. Williams ar achlysur dathlu eu Priodas Rhuddem ychydig ddyddiau ynghynt.

Dymuniadau da: Anfonwn ein dymuniadau da i Mr Abram Jones, Foel Gron, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri. Hefyd yr un yw ein dymuniadau i'w chwaer, Margaret J. Jones, Foel, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithiwn eu gweld adref yn fuan wedi gwella'n llwyr.

Un sydd wedi dod adref wedi iddo fod yn Ysbyty Gwynedd yw Mr Rennell Williams, Tan Fron. Balch ydym o ddeall ei fod yntau yn gwella. **Diolchiadau:** Dymuna Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll, pell ac agos, am yr holl gardiau, galwadau ffôn, a'r rhoddion oll. Diolch hefyd i'r staff a'r meddyg yn Ysbyty Glan Clwyd, nyrsus Llanberis a'r meddygon am eu gofal caredig. Diolch yn fawr iawn i bawb. **Llongyfarchiadau** i Andrew ac Alice Griffith, Tan y Bwlch, ar fod yn Daid a Nain eto — y tro hwn i Iwan Siôn, mab i Iolo a Valerie, Llanberis. Dymuna Valerie a Iolo ddiolch yn fawr am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniwyd oddi wrth y teulu a'u ffrindiau yn Ninorwig ar

achlysur geni eu mab bychan ar 10 Medi. Diolch yn fawr.

Cymdeithas Lenyddol Undebol: Arwydd bod y gaeaf ar ein gwarthaf yw y bydd y Gymdeithas yn cychwyn tymor newydd ar nos Fercher, Hydref 28, am 7 o'r gloch, yng nghwmni Parti Cei o Gaernarfon. Yna ar nos Fawrth, Tachwedd 10, Dewi Llwyd o Fangor, sydd yn adnabyddus fel darlledwr gyda'r BBC, fydd y gŵr gwadd. Tâl ymaelodi a'r Gymdeithas yw £1 sydd yn dipyn o fargen.

Gohebydd yr Eco i'r Pentref: gan nad oes neb wedi dod ymlaen i wirfoddoli fel gohebydd i'r pentref mae Glyn Tomos am gario ymlaen gyda'r gwaith. Felly cysylltwch ag ef o hyn ymlaen os am gynnwys deunydd am y pentref yn yr Eco.

Diolch i bawb am ddod i'r Ganolfan ar nos lau, Medi 10, i blygu rhifyn mis Medi o'r Eco. Fe ddaeth o gwmpas ugain o bobl at eu gilydd ac o'r herwydd fe lwyddwyd i gwblhau'r gwaith o fewn awr a hanner! Diolch i bob un ohonoch.

Ar Werth: Os ydych yn dymuno prynu Bynicar Glo (concrit) yna ffoniwch Llanberis 870214.

COLOFN NAWDD CYMDEITHASOL

Lwfans Gofal Analluedd

Os ydych yn gofalu am rhywun sy'n anabl efallai eich bod yn deilwng i fudd-dâl arbennig, sef Lwfans Gofal Analluedd (*Invalid Care Allowance*). Atebwch y cwestiynau hyn i weld os allwch fod yn deilwng:

1. A ydych yn 16 oed neu hŷn, ond o dan 60 (i wragedd) neu 65 (i wŷr)?
2. A ydych yn gofalu am rhywun am o leiaf 35 awr yr wythnos?
3. A yw'r person yr ydych yn gofalu amdanynt yn derbyn Lwfans Gweini (*Attendance Allowance*), Lwfans Gweini Cyson (*Constant Attendance Allowance*), neu cyfradd canol neu uchaf o'r rhan gofal o Lwfans Byw i'r Anabl (*Disability Living Allowance*)?

Os gallwch ateb 'Ydyw' neu 'Ydyw' i'r cwestiynau uchod efallai y cewch Lwfans Gofal Analluedd, sy'n £32.55 yr wythnos.

Nid yw'n daladwy i bobl sydd mewn addysg llawn-amser, fodd bynnag, nac i rai sydd ag enillion o £40 yr wythnos neu fwy.

Gellir cael ychwaneg o wybodaeth, a ffurflen gais, drwy ffonio Llinell Ddi-dâl Nawdd Cymdeithasol ar 0800 289011. Ni fyddwch yn talu am yr alwad, ac fe gewch gyngor ar unrhyw fater arall yn ymwneud â Nawdd Cymdeithasol os mynnwch.

Dau o Coronation Street ar Ben y Golwg

'Lle braf ydy hwn.'

'Ia. Biti am yr hen fynyddoedd yma.'

'Sut felly?'

'Difetha'r fiw.'

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
 **BANGOR**
354646

Cwmni
THEATR
Gwynedd

yn cyflwyno

"Y GOSB DDIDDIAL"

Cyfieithiad Gareth Miles
o Ddrama Lope De Vega

Cyfarwyddwr: Ceri Sherlock
Cynllunydd: Geraint Powell

Stori ramant gyflym, anturus ac annisgwyl.
Wedi ei gosod ym myd Pabyddol, siofenistaidd
Sbaen Lope De Vega, ble mae anrhydedd yn
dyngedfennoll.

Cast:

Grug Maria Davies, Rychard Elfyn, Alun Elidyr, Danny Grehan, Rhian Morgan, Ceri Tudno, Trefor Selway a Wyn Bowen Harris.

Theatr Gwynedd, Bangor

Nos Fawrth 27 Hydref — Noson Blaenweled 7.30 y. h.
Nos Fercher — Nos Sadwrn; 28 — 31 Hydref 7.30 y. h.
Nos Fawrth — Nos Sadwrn, 3 — 7 Tachwedd 7.30 y. h.
Y Swyddfa Docynnau: Bangor (0248) 351708

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

IEUAN
WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Methu'r trê i gopa Eco'r Wyddfa fu ein hanes y mis diwethaf ac felly mae'r adroddiad yma yn ceisio dal i fyny gyda'r digwyddiadau dros wythnosau'r haf.

Ar ddiwedd y tymor yr haf bûm yn ffarwelio â phedwar aelod o staff. Bu Mrs Sarah Roberts o Lanberis yn gweithio fel technegydd labordy yn yr ysgol ers 1984 a mawr fu ei chymorth i ddisgyblion wrth iddi weithio yn y cefndir i gynorthwyo yr athrawon wrth eu gwaith.

Fe benodwyd Mr John Eirwyn Morris i'w swydd fel Pennaeth Adran Bywydeg a Mr John Lloyd yn Bennaeth Daearyddiaeth o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd dros ugain mlynedd yn ôl a bu'r ddau yn gyfeillion ar y staff ers hynny. Elwodd miloedd o ddisgyblion o'r fro ar eu hymroddiad fel athrawon cydwybodol ac mae'n debyg fod dyled fawr i'r ddau gan gyn-ddisgyblion sydd wedi crwydro ymhell o'r dyffryn erbyn hyn. Dan amodau o doriechyd bu i'r ddau ymadael â'r ysgol felly hyderwn y cânt adferiad i lwyr iechyd er mwyn mwynhau blynyddoedd o ymddeoliad dedwydd iawn.

Daeth Mrs Megan Williams i'w swydd fel ysgrifenyddes yr ysgol dair mlynedd ar hugain yn ôl. Gwnaeth ei gwaith yn hynod gydwybodol gan wasanaethu sawl Prifathro yn drylwyr gydwybodol ac effeithiol, ond yn ei chanlyn i'r ysgol bob dydd roedd dogn mwy na'r arfer o gyfeillgarwch a boneddigrwydd a'i gwna mor boblogaidd gyda'r disgyblion yn ogystal â'r staff, felly mawr yw'r parch iddi yn yr ysgol.

Dymunwn hir oes a hapusrwydd i chwi oll gan ddiolch i chwi am eich gwasanaeth i Ysgol Brynrefail.

Wrth ffarwelio â rhai aelodau cawsom gyfle ar ddechrau y tymor hwn i groesawu wynebaw newydd yn athrawon ac yn staff ategol.

Bu Miss Ruth Davies yn Bennaeth Adran Bywydeg yn Ysgol John Bright cyn ymuno â ni i lenwi yr un swydd ym Brynrefail. O Ysgol Botwnnog y daw Miss Mair Hughes i lenwi swydd Pennaeth Daearyddiaeth, tra fod Mr Siôn Jones, o Glwyd, yn ymuno â ni i'w swydd gyntaf fel athro yn yr Adran Wyddoniaeth. Ysgrifenyddes newydd yr Ysgol yw Mrs Jean Jones, o Fôn, a phenodwyd Mrs June Owen, o Fethel, yn Llyfrgellydd newydd i ddatblygu yr adnodd gwerthfawr hwn. Dymuniadau gorau i chwi gan obeithio y gallwch setlo i lawr yn ein mys.

Daeth llwyddiant anghyffredin i'r disgyblion yn ystod yr haf ar lefel

YSGOL BRYNREFAIL



O'r chwith: Bryn Jones, Tammi Jones, Lowri Angharad ac Ian Hughes — prifddisgyblion a dirprwyon yr Ysgol.



Haley Williams a Bronwen Jones yn cyflwyno rhoddion i Mrs Megan Williams ar ran y disgyblion.

arholiadau A a TGAU gyda mwy o ddisgyblion yn llwyddo gyda graddau uwch na welwyd ers rhai blynyddoedd. Llwyddodd y mwyafrif o'r chweched dosbarth i ennill eu lle mewn colegau a pholytechneg gyda Bryn Ceirion Jones o Lanrug, y Prifddisgybl, yn llwyddo i ennill tair gradd A gan sicrhau lle iddo'i hun yn Rhydychen.

Dymuniadau gorau i'r disgyblion hynny sy'n symud ymlaen i goleg addysg uwch a phellach, i gynllun gwaith neu i swydd newydd. Pob lwc i'r cyfan ohonoch.

Gyda dechrau tymor newydd fe benodwyd Prifddisgyblion a Dirprwyon iddynt am y flwyddyn academaidd. Y Prifddisgyblion yw Bryn Jones a Tammi Jones gyda Lowri Angharad ac Ian Hughes yn Ddirprwyon iddynt. Pob hwyl iddynt wrth eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

Trip Band Chwyth a Band Pres Gwynedd i Awstria: Ddydd Mawrth, Gorffennaf 7fed cychwynodd band chwyth a phres Gwynedd ar daith i gynnal nifer o gyngherddau yn Awstria. Mae nifer o ddisgyblion yr Ysgol yn perthyn i'r bandiau hyn. Byddant yn dychwelyd ymhen pythefnos i berfformio yn yr Wyl Gerddi yng Nglyn Ebwy.

Yr Ysgol Ddrama: Pob dymuniad da i ddisgyblion yr Ysgol sy'n perthyn i Ysgol Ddrama Glaenaethwy. Dydd Gwener, Gorffennaf 10fed roeddent yn perfformio mewn cystadleuaeth trwy Brydain yn y Royal Festival Hall.

Taith Blwyddyn 7 i Llynllifon: Ar ddydd Gwener, Mehefin 5ed, teithiodd pawb o ddisgyblion blwyddyn un a'u hathrawon cofrestru i Goleg Glynllifon. Er gwaetha'r tywydd diflas cafwyd diwrnod hwyliog a diddorol.

Treuliwyd y bore yn ymweld â fferm Glynllifon, yn crwydro'r goedwig ac yn teithio ar gefn trelar!

Yn y prynhawn metrodd pawb gerdded ar hyd traeth Dinas Dinlle at y maes awyr. 'Roedd yn amlwg o'r canu a'r hwyl ar y bws ar y ffordd yn ôl i'r Ysgol bod pawb wedi mwynhau'r diwrnod.

Taith Blwyddyn 2 a 4: Stiwdios Granada ym Manceinion fu cyrchfan blwyddyn dau a digon o gyfle iddynt siopa yn y fargen. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach bu blwyddyn 4 yn 'Starcoast', Pwllheli. Deallwn i bawb gael hwyl fawr ac fe ddiolchir i'r rhai a fu'n trefnu.

Dewis Dwy Actores: Llongyfarchiadau i ddwy o'r Ysgol sydd wedi eu dewis i ymddangos mewn ffilm deledu ar S4C yn y dyfodol. Addasiad o 'Blind Dê' o waith Jane Edwards fydd y ffilm. Dewiswyd Sioned Meleri Owen a Tammi Jones o'r chweched isaf i gymryd rhannau blaenllaw yn y cynhyrchiad. Pob lwc i'r ddwy ohonynt gyda'r ffilmio.

BORE COFFI YN LLANBERIS a gweddill Prydain

Yn yr oes sydd ohoni, mae digon o elusennau a mudiadau yn galw am ein cefnogaeth ariannol. Y gamp i bob un ohonynt yw darganfod dull *unigryw* o godi arian.

Ar yr olwg gyntaf, y dull mwyaf gwreiddiol a ddewiswyd gan Apêl Nyrsio Mcmillan — trefnu bore coffi! Yr hyn oedd yn wahanol oedd bod y bore coffi yma yn Brydeinig ei naws — gyda miloedd, ac efallai miliynau o bobl yn llyncu coffi ar yr un pryd. Roedd pob canolfan a oedd yn cefnogi'r achos trwy gynnal bore coffi, yn nodi'r nief a fynychodd eu bore coffi nhw a'r bwriad yn awr yw cyhoeddi y ffigwr terfynol ym meibl y recordiau — y *Guinness Book of Records*!

Bydd yr arian a gasglwyd yn mynd i gronfa Brydeinig ganolog. Defnyddir yr arian i hyfforddi nyrsus i ofalu am y cleifion yn yr amryw wardiau Mcmillan. O reidrwydd, mae'r hyfforddiant ar gyfer y gwaith ymroddedig hwn yn fanwl a chostus.

Cafwyd 'bore' llwyddiannus iawn yn y Bistro yn Llanberis, trwy haelioni Danny a Nerys Roberts. Yn ystod y 'bore', trodd 110 o bobl i mewn am baned a sgwrs. Llwyddwyd i gyfrannu yn agos at £200 at yr achos clodwiw. Cafwyd raffl, gyda'r brif wobwr yn bryd o fwyd i ddau yn y Bistro. Yr enillydd ffodus oedd Lola Owen. Enillwyr eraill oedd Ann Duffy (potel o win), Megan Hughes (bisgedi) ac Eunice (clinic) yn ennill bocs o siocled. Rhoddwyd yr ail a'r drydedd wobwr drwy haelioni Jane ac Angharad Swift.

Gobeithio bod brwdfrydedd a haelioni Llanberis wedi ei adlewyrchu trwy Brydain, at yr achos hollol haeddiannol hwn.

Yn dilyn llwyddiant y fenter uchod, mae Danny Roberts, Y Bistro, wedi mynegi ei fodlonrwydd i gynnal boreau o'r fath unwaith y mis er budd achosion teilwng eraill.

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ar Agor
9-7pm
9-7pm Sadwrn
Argau
Sul a Mercher



Dewis eang o
Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Lleni 'Roler'.
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 291

Wavell Roberts CIGYDD LONDON HOUSE LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr y Clwb 300 am fis Awst — £40: Neville Owen, Bryn Gwylan; £25: Wendy Jones, 2 Penclip; £10: Alice Johnstone, Tŷ Gwyn.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf gwelwyd llawer o 'D' ac 'L' yn cael eu tynnu oddi ar geir pobl y pentref sydd yn rhoi'r neges inni fod y 'dysgwyr' wedi llwyddo yn eu prawf gyrru. Llongyfarchiadau i bob un fu'n llwyddiannus a phob lwc i'r rhai fydd yn trio eu prawf yn y dyfodol.

Dathlu Pen-blwydd: Yn ystod mis Medi bu Osian Gwynedd, Nant, yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau iti Osian a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Dymuna Osian ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Heddus Gwynedd, Nant, ar basio Gradd 5 efo'r fflwt.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs John Cotton, Grug y Mynydd, ar ddod yn daid a nain eto. Ganwyd mab bychan, Siôn, i'w mhab Alan a'i wraig, brawd i Bethan.

Yn yr ysbyty: Dymunwn wellhad buan i Mr John Cotton sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mangor. Hefyd Mrs Mary Davies, Bryn Eithin, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Adref o'r ysbyty: Croesawn Mr Glyn Williams, Plas Glyn Afon; Mr John Jones, Hafod y Rhug a Mr Evan J. Hughes, Stad Tref Eilian, o'r ysbyty, gan obeithio eu bod yn teimlo'n well ar ôl cael dod adref.

Cydymdeimlo: Mewn cyfnod byr o wythnos teimlodd pentref y Waun yr ing o golli tri o'n trigolion a oedd yn annwyl iawn i'w teuluoedd ac i'r gymdogaeth.

Cydymdeimlwn ac Ann a Nesta yn eu profedigeath o golli eu tad, Mr Arthur Llywelyn Griffith, Eirianallt, a fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd, ac a oedd yn frawd i Mr Dafydd J. Griffith, Stad Tref Eilian.

Yn dawel yn Ysbyty Eryri bu farw Mrs Gwyneth Griffith, Stad Tref Eilian a chydymdeimlwn â Heulwen Huws a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam annwyl.

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Miss Bessie Jones a fu farw'n dawel yn ei chartref.

Cydymdeimlir â Mrs Doris Roberts, Dwyros, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Thomas Edwin Jones (Graianfryn gynt); ac â Mr Iorwerth Jones, Dychwelfa, yn ei alar o golli ei chwaer.

Tân yn ei chartref: Am yr eildro eleni gorfu i Mrs Ray Hughes, Manchester House, alw'r frigâd dân i'w chartref. Y tro hwn cafwyd difrod mawr i'r gegin. Anfonwn ein cofion atoch Ray yn eich helynt.

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd tymor y gaeaf o'r Gymdeithas Lenyddol yn cychwyn nos Lun, Hydref 26 (hynny yw y dydd Llun wedi gwyliau hanner tymor!). Mae rhaglen ddifyr wedi ei darparu ac i agor disgwylir y Parchedig Harri Parri i roi sgwrs ar ardal ei febyd yn Llŷn o dan y pennawd 'Y Ffilltir Sgwâr'. Yn ystod y tymor edrychir ymlaen am gyfraniadau gan Emyr Jones, Mary Vaughan Jones, R. Maldwyn Thomas, Dafydd Thomas ac R. Gwynn Davies. Mae'n galondid deall fod amryw o aelodau newydd yn bwriadu ymuno â'r Gymdeithas y tymor hwn. Cynhelir y cyfarfodydd yn y Ganolfan.

Eisteddfod Waunfawr, Tachwedd 7fed. Dyddiadau i'w cofio:

Nos Lun, Hydref 19 yn y Ganolfan am 6.30: cystadleuaeth modelu o wastraff i ddisgyblion blwyddyn 1, 2 a 3 Ysgol Uwchradd.

Mae angen y gwaith llên fod yn nwylo'r ysgrifenyddes erbyn Hydref 21 fan bellaf.

Beirnedir y gwaith llaw, coginio, ffotograffieth, arlunio a gwaith coed yn yr Ysgol ar nos Fercher, Hydref 28ain, am 6.30 o'r gloch.

Testunau Siarad Cyhoeddus fydd: (a) a ddylai plant gael yr hawl i ddod ar bwyllgor llywodraethwyr eu hysgol; (b) lol ydi'r busnas diet yma; (c) bwytwch a byddwch lawen.

Ymarferion: Bydd Mrs Marston yn y Ganolfan foreau Sadwrn Hydref 24 a 31, rhwng 9.30 a 10.30, i ymarfer canu hefo'r plant.

Am unrhyw wybodaeth am yr eisteddfod cysylltwch â Heulwen Jones ar Waunfawr 388 neu oes oes gennych ddiddordeb hyfforddi mewn unrhyw ffordd, e.e., côr adrodd, parti canu, dawnsio disgo, dawnsio gwerin, etc., byddwn yn falch iawn o'ch cymorth.

Yr Urdd: Dechreuodd tymor Adran yr Urdd wythnos diwethaf gyda chwis. Nos Fercher, Medi 23, bydd Mr Alan Bevan o'r heddlu yn dod i siarad â'r plant am ddiogelwch beicio. Mae yna

amrywiaeth o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y gaeaf. Os oes 'na rhywun eisiau ymaelodi ac heb wneud, brysiwch ati.

Merched y Wawr: Dyma'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn. Gobeithio y daw nifer dda ynghyd i bob cyfarfod. Croeso mawr i aelodau hen a newydd.

Medi 24: Morgan Parry — 'Dyfodol Amgylchfyd Cymru'.

Hydref 29: Noson Lysieuol, yng ngofal Beryl Lloyd Jones a Gill Brown.

Rhagfyr 3: Cinio Nadolig yn y Bistro, Llanberis.

Ionawr 28: Mr a Mrs Bleddyn Williams, Caernarfon — 'Ein Taith o Gwmpas y Byd'.

Chwefror 25: Swper Gŵyl Ddewi gyda lola Gruffudd.

Mawrth 25: Gwaith Ambiwlans Sant Ioan — Glenys Parry.

Ebrill 22: Gweithio gyda Gwydr Lliw — Mary Jones.

Mai 20: Nia Powell o Adran Hanes y Brifysgol.

Mehefin 24: Gwibdaith — manylion i'w trefnu.

Cynhelir y cyfarfodydd yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch, oni hysbysir yn wahanol.

Diolch: Dymuna Heulwen, Lowri,

CYFRES

MATERION CYFOES

BBC CYMRU

BOB NOS IAU

AR S4C

TARO NAW

OES 'NA BWNC LLOSG NEU STORI YN EICH HARDAL CHI SY'N HAEDDU SYLW CENEDLAETHOL? MAE TÎM TARO NAW, UNED MATERION CYFOES BBC CYMRU, AM GLYWED GAN UNRHYW UN SYDD Â SYNIADAU CYFFROUS AR GYFER EIN CYFRES NEWYDD.

CYSYLLTWCH Â NI:
SWYDDFA TARO NAW, YSTAFELL E1105, BBC CYMRU,
LLANDAF, CAERDYDD CF5 2YQ

BBC
CYMRU

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.

Dymunwn wellhad buan i Mr Alun Wyn Hughes, Hafod ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar; ac hefyd i Mrs Nellie Roberts, Glanrafon, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau i Brian a lola ar achlysur eu priodas, Medi 19, yng Nghapel Siloam, Bontnewydd.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Diolch: Dymuna Cassie a Caradog Hughes, Tŷ Gwyn, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau i Eric Roberts, Gerallt, Erw Wen, ar ddechrau gyrfa newydd. Bydd Eric yn gwneud cwrs blwyddyn yng Ngholeg Diwinyddol Mihangel Sant, Llandaf, Caerdydd.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521


Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol


Rhys, Elin a'r teulu ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a chwaer annwyl iawn. Diolch am bob cyfraniad at Gronfa Ward Peblig, Ysbyty Eryri. Hefyd dymuna Heulwen

ddiolch o waelod calon i'w holl ffrindiau a chymdogion a fu yn gefn mawr iddi tra bu ei mam yn wael yn yr ysbyty, drwy fod mor barod eu cymwynas o warchod Lowri, Rhys ac Elin. Diolch yn fawr.

CROESAIR HYDREF



CROESAIR MEDI



Cymeraf yn ganiataol mai pysurdeb yr haf yn ogystal a diffyg amser a oedd yn gyfrifol na ddaeth yr un ymgais i law erbyn 19eg Medi, y dyddiad cau. Fodd bynnag, bu i un o'r Golygyddion ddynodi 'protest' swyddogol fod y pŵs hwn yn anos na'r cyffredin. Tybed? Yn sicr, ni fu i'm llawysgrifen flêr gynorthwyo pethau gan mai 'Nwy' ac nid 'Mwy' oedd y gair olaf yn y cliw cyntaf ar draws i fod. Ymddiheuraf am y gwall yma.

Felly, dim gwobr i unrhywun y tro hwn ond gobaith am werth £10 am yr ateb cywir i groesair Hydref a dynnir

AR DRAWS

1. Un gair am synnwyr cyffredin (7)
5. Seibiant (5)
8. Ein nawddsant a'i fam (4,3)
9. Cyflym (5)
10. Prif berson y Fwrdeisdref yntâl (4,5)
12. Brawd nith (3)
13. Mae'r wal — i a'r gwellt glas (5)
17. Ffrwythau'r iar ar lafar gwlad (3)
19. Plwyf Dic (9)
21. Cyfarfod trafod pregeth (5)
22. Term gramadegol (7)
24. Yn aml iawn (5)
25. Yn haeddu'i regi (7)

I LAWR

1. Syrthio'n aml (6)
2. Gweithred ar fechgyn yn y Beibl (7)
3. Plant y famog (3)
4. Derbynnau newydd da (5)
5. Rhuthun ac Aberystwyth (9)
6. Yn dilyn (5)
7. Llysieuyn mewn lobscows (6)
11. Mae'n amlwg y bu dathliad yma (2,7)
14. Matiau modern (7)
15. Derbynnau'n uwch na'r taliadau (6)
16. Hynaws a chlos (6)
18. Metal yr 2il wobwr (5)
20. Ofnadwy (5)
23. 'CD' — yw'r disg fodem ar gyfrifiaduwr (3)

allan o het fore Sadwrn, 17eg Hydref pryd y dylai'r ceisiadau i gyd fod yn llaw lfor G. Efans, Afon Goch, Deiniolen. Pob hwyl arni'r tro hwn!

Dyddiadur y Mis

HYDREF

1 **Iau. Brynrefail:** Cymdeithas Chwiorydd Capel M.C. Brynrefail.
6 **Mawrth. Llanberis:** Cyfarfod plant yn Festri Capel Coch i blant ysgolion cynradd, yn syth ar ôl yr ysgol hyd 4 o'r gloch (bob dydd Mawrth). Croeso i bawb.
7 **Mercher. Deiniolen:** Seiat Dosbarth yng Nghedfyn-y-waun am 7. Siaradwr: Parch. Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon. **Llanrug:** Plaid Cymru — Anerchiad gan Dafydd Wigley A.S., ar 'Ymgynghedd i Gymru', yn y Sefydliad Coffa am 7.30. Gwahoddir aelodau canghennau eraill y fro i'r cyfarfod hwn.
8 **Iau. Deiniolen:** Cyfarfod plant yn Festri Ebeneser am 3 a 3.30 i blant ysgolion cynradd (bob dydd Iau). Cyfarfod y Chwiorydd yn Festri Ebeneser am 7.
9 **Gwener. Deiniolen:** Pwyllgor yr Eisteddfod yn cyfarfod yn yr Ysgol am 7. Gwerin-y-coed — noson arbennig o hwyl a sbectol gyfer plant rhwng 6 a 12 oed yn Ysgol Gwaun Gynfi rhwng 6 ac 8 o'r gloch. Ceir storïau gan Eric Maddern o'r Fachwen. Pris mynediad 50c ac fe rennir yr elw rhwng Oxfam a Grŵp Gwerin-y-coed. Croeso cynnes i bawb.
12 **Llun. Bethel:** Taith gerdded nodedig o amgylch y pentref i blant, rhieni ac athrawon y Cylch Meithrin. Gadael y Caban Meithrin am 1 o'r gloch (bore Mawrth os yn bwrw). Bwriedir casglu arian i'r Cylch Meithrin. **Dinorwig:** Grŵp Gwerin-y-coed yn cyfarfod 6-7 o'r gloch. **Deiniolen:** Cyngor Eglwys — Gwasanaeth Ddiolchgarwch Cefn-y-waun am 7 o'r gloch.
13 **Mawrth. Bethel:** Clwb Ffermywyr Ifanc. Cwm-y-glo: Bingo yn y Ganolfan am 7 a'r elw at Eglwys St Gabriel.
14 **Mercher. Bethel:** Merched y Wawr — cyfarfod yn neuadd yr Ysgol am 7.30 yng nghwmni Ann Morgan o'r Tear Fund. Bydd bwrdd gwrthu Tear Fund. Croeso cynnes i aelodau newydd.
16 **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8.
18 **Sul. Deiniolen:** Gŵyl Ddiolchgarwch Eglwys Llandinorwig am 5 o'r gloch. Pregethir gan y Parch. Geraint Edwards. Gŵyl Ddiolchgarwch Capel Cefn-y-waun. Gŵyl Ddiolchgarwch Capel Ebeneser. **Dinorwig:** Gŵyl Ddiolchgarwch Eglwys St Mair am 3.45. Pregethir gan y Parch. Geraint Edwards. Croeso cynnes i aelodau eglwys eraill. **Penisarwaun:** Gŵyl Ddiolchgarwch yng Nghapel Bosra am 10 o'r gloch.
19 **Llun. Dinorwig:** Gŵyl Ddiolchgarwch Undebol am 2 o'r gloch yng Nghapel Dinorwig M.C. **Brynrefail:** Sefydliad y Merched — Sgwrs gan Miss Alice Williams am ei thaith yn Asia, Awstralia a'r Amerig. **Deiniolen:** Merched y Wawr — Mr a Mrs Alwyn Williams, 'Gosod Blodau'.
23 **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8 o'r gloch.

26 **Llun. Waunfawr:** Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan — sgwrs gan y Parch. Harri Parri ar 'Y Ffilltir Sgwâr'. **Deiniolen:** Y Gymdeithas Lenyddol yn y Caban am 7. Sgwrs gan Mr Emllyn Evans, Bethesda.
27 **Mawrth. Dinorwig:** Cyfarfod Agoriadol y Gymdeithas Lenyddol am 7 pryd y diddenir ni gan Barti Cei o Gaernarfon. Croeso i bawb. Tâl aelodau £1 yn unig. **Llanberis:** Y Gymdeithas Lenyddol Undebol am 7.30 — y Prifardd Selwyn Griffith 'Ambell Bill'. **Llanrug:** Cangen Merched y Wawr yn ymweld â Theatr Gwynedd i weld 'Y Gosb Ddi-ddial'. **Penisarwaun:** Cyfarfod yr Urd yn dechrau o 6-7 o'r gloch yn yr Ysgol.
29 **Iau. Caernarfon:** Gwesty'r Royal, fe gyflwynir sicc am £6,000 i drefnydd Apêl Ymchwil y Galon dros Gymru. **Waunfawr:** Merched y Wawr yn y Ganolfan am 7.30. Noson Lysieuol o dan ofal Beryl Lloyd Jones a Gill Brown.
30 **Gwener. Deiniolen:** Eisteddfod Gwaun Gynfi a'r Cylch yng Nghapel Ebeneser am 6. Beirniad: Mr Walter Glyn Davies, Amlwch (cerdd), a Mr Selwyn Griffith (adn. dd. a llen).
31 **Sadwrn. Deiniolen:** Eisteddfod Gwaun Gynfi a'r Cylch yn Ebeneser am 12 o'r gloch a 6 yr hwyr.

RHODDION

£5: Bert a Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanberis; Mair Foulkes, Penisarwaun; Bob Hughes, Llanberis, er cof am Hetty Hughes, 1907-1984; Olive a Glyn, Llanddaniel, Môn.
£3: Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen; Betty P. Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Teulu Argoed, Waunfawr, er cof am Nain.
£2: Plant y ddiweddar Mrs M. Williams, 46 Pentre Helen, Deiniolen; Andrea a Kelvin, Arfon House, Deiniolen; Gwilym a Glenys Owen, Stryd yr Wyddfa, Llanberis.
£1: Meinir, Bethel.

Byd yr Enwair — parhâd o dud gefn. Goronwy yn athro da neu fod Gari yn 'sgotwr gwell!

O ardal Crawia fe gafodd Gwynfor Jones, Bethel, un 6 pwys; Geraint Edwards, Rhosmeirch, un 9 pwys ar bluen; Elwyn Williams, Gaerwen, 6 pwys — mae'n rhaid bod Elwyn wedi cymryd cyngor a rhoi melysion i'r mul er mwyn cael y wybodaeth sut i ddal.

O gyffiniau Pontrug fe ddaliwyd y mwyaf o'r Seiont, hyd y gwn i, gan

Oscar Evans, Bethel, 11½ pwys; Vyrnwy Evans, Caernarfon, cyfanswm o bedwar oddeutu 6 pwys; T. Brown, Llanrug, 3 oddeutu 6 pwys; M. Owen, Caernarfon, dau eto oddeutu 6 pwys.

Clywyd bod Meirion Owen o Lanberis — gan fod y 'sgota ar Lyn Padarn wedi bod yn araf — wedi dechrau ffurf arall o 'sgota, sef dal cathod! Beth oedd hon tybed — cath ddŵr?!

Castell Cidwm



BETWS GARMON
Ffôn: Waunfawr 243

Dewch am wledd ym
MWYTY'R PYSGOTWR
ar lan Llyn Cwellyn lle
diddorol, gwahanol, braf

ac am banded o goffi a theisen hufen
mae croeso i deuluoedd a phlant yn
CAFFI'R BWTHYN

**AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM**

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL



- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim

**CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!**



FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

CHWARAEON

LLYGAID BARCUD

Ers cymryd swydd y golygydd a'r ymchwil ynglŷn â hi, cefais fy synnu gan gymaint o gampwyr rhyngwladol sy'n byw ym mro'r Eco. Rhaid i mi gyfaddef bod rhyw deimlad mai dim ond y cap pêl-droed sy'n cyfrif. Ond nid felly — gofynnwch i'r athletwyr, pysgotwyr a'r saethwyr colomenod clai!

Un a gyrhaeddodd y brig yn y gamp olaf yw Gwyn Parry, 23 oed, o Fethel. Daeth ei awr fawr y llynedd yn y saethu rhyngwladol yn Iwerddon. Ar sail hyn fe ymddangosodd ar raglen 'Shotolau' ar S4C. Yn Iwerddon daeth wyneb yn wyneb â rhai o feistri Prydain — gan sylweddoli yr anfantais ariannol oedd ganddo gan fod rhai o'r saethwyr â gynnu wedi eu cynllunio yn bwrpasol i'r unigolyn ac yn costio hyd at £4,000!

Dechreuodd ei yrfa yn ifanc iawn gan saethu 'air-gun' pan yn 5 oed. Erbyn cyrraedd 12 oed roedd wedi

symud ymlaen i'r '12-bore' nerthol. Pan oedd Gwyn yn 14 oed roedd ei dad a'i ffrindiau wedi sefydlu clwb saethu colomenod clai yn y Faenol. Rhoddodd hyn gyfle i Gwyn feithrin yr elfen gystadleuol ac mewn ychydig amser fe enillodd ei gystadleuaeth agored gyntaf yn y Waunfawr.

Fel amryw eraill yn yr ardal er mwyn cyrraedd y safon angenrheidiol rhaid teithio llawer. Er ei fod yn aelod o Glwb Saethu Môn mae mwyafrif o'r cystadlaethau saethu yn cael eu cynnal yn



Llandegla (Clwyd) neu Trefeglwys (Powys). Ar wahân i'r costau teithio a'r gwn, mae costau prynu'r 1000 cetrys, sy'n ddigon ar gyfer 7 cystadleuaeth, yn costio oddeutu £100.

Mewn cystadleuaeth fe anelir at 100 o adar sy'n saethu o'r trap i wahanol gyfeiriadau ar gyflymdra o 70 m.y.a. Ceir 3 pwynt am chwalu

gyda'r baril cyntaf a 2 bwynt os chwelir gyda'r ail faril. O'r cyfanswm perfaith o 300 ei sgôr uchaf yw 297 — sy'n golygu iddo chwalu'r 100 aderyn gyda dim ond 3 ergyd o'r ail faril yn unig. Dyna'r math o saethu fydd ei angen yn y prawf rhyngwladol yn Nhrefeglwys yr wythnos nesaf os am ail ennill ei le. Pob lwc iddo.

TÎM NEWYDD ARALL

Y tymor hwn bydd tîm -14 o Fethel yn chwarae yng Nghynryair Gwyrfa. Bydd hyn yn ddatblygiad pendant gan fod carfannau dan 9 a dan 12 wedi bodoli eisoes. Y mae'n gryn bluen yng nghap Dafydd Jones a'i gyd sylfaenwyr, o gofio bod y cyfan wedi deillio o sesiynnau dan do yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon. Chwaraeodd y tîm ddwy gêm hyd yn hyn. Yn anffodus, tîm cryf Llanrug (a'r cyffiniau) oedd eu gwrthwynebwyr yn y gêm gyntaf a cholli 9-0 oedd y canlyniad — er mai 1-0 oedd hi ar yr hanner. Y gwynt yn troi oedd un rheswm dilynwr selog! Cafwyd buddugoliaeth yn eu hail gêm — a hynny i ffwrdd yn Nhal-y-sarn. Enillwyd 4-1, gyda uchafbwyntiau o gôl Iwan Hall, wedi iddo redeg 50 llath cyn rhwydo, a perfformiad cloddiw Darren Jones fel cefnwr chwith.

Bu'r Clwb yn ffodus iawn i gael cae tu ôl i Gapel Cysegr. Gyda



cynnifer o blant yn aelodau o'r Clwb mae digon o waith i'w wneud i gefnogi'r pwyllgor gweithgar. Mae angen marcio'r cae, torri'r cae, a chludo'r plant i'r gemau — ac wrth gwrs cefnogi. Os gellwch helpu mewn unrhyw ffordd cysylltwch â Dafydd, Morlais, Bill Griffiths, neu un arall o'r pwyllgor.

Dylid gwneud sylw arall am y gêm

yn Nhal-y-sarn — dyma'r gêm gyntaf i'w chwarae ar faes newydd y pentref. Mae'r cae ar safle hen domen chwael. Diolch i gefnogaeth Cyngor Arfon, gall pobl Tal-y-sarn rŵan ymfalchïo mewn maes sydd cystal a llawer o feysydd cyngrair Sealink. Onid oes neges yma i bentrefi eraill i gydweithio i ddatblygu cyfleusterau i'w hieuenctid?

CYRSIAU HYFFORDI

Soniais droeon yng ngholofnau'r Eco am bwysigrwydd o ddatganoli chwaraeon ac elfennau hamdden. Er mor gyfforddus a deniadol yw Canolfannau Hamdden mae llawer i'w ddweud dros feithrin canolfannau stepan drws. Tystia llawer hefyd o'r pleser pan sefydlir clwb chwaraeon o unrhyw fath mewn pentref, a'i weld yn blaguro. Buasech yn synnu faint o'r chwaraeon 'ymylol' neu 'leiafrifol' sy'n sydyn ddod yn boblogaidd wedi sefydlu clwb. Mae pêl-fasged yn enghraifft berffaith o hyn mewn llawer canolfan yn Arfon.

Mewn partneriaeth rhwng Adran Hamdden Cyngor Arfon ac Ysgol Brynrefail fe gynnigir cyrsiau hyfforddi mewn pedwar camp rhwng mis Medi a'r Nadolig. Bydd pob cwrs yn parhau am 10 wythnos. Y pedwar camp a ganolbwyntir arnynt yw — Aerobics: i ferched dros 16; Criced: i blant cynradd rhwng 7-11; Hoci: i blant 7-11; Gymnasteg: 2 grŵp — 4-7 oed ac 8-11 oed.

Bydd croeso i'r profiadol a'r dechreuwyr gan y bydd hyfforddwyr profiadol ar gael.

Am fwy o fanylion ynglŷn â chost ac amser y cyrsiau gellir cysylltu yn unioingyrchol ac Ysgol Brynrefail.

Er gwybodaeth — bwriedir cynnal cwrs golffio i flynyddoedd 7 ac 8 ysgolion uwchradd (yr hen flwyddyn 1af ac 2il) wedi hanner tymor.

Beth amdani felly — yn lle meddwl amdano — ewch a mwynhewch. Y cyntaf i'r felin gaiff falu!

Gymdeithas orchymyn llys yn erbyn y cwmni iddynt drosglwyddo dogfennau i'n cyfreithwyr fel y gellir, gobeithio, ddod a'r mater diflas yma i ben.

Wrth i'r dŵr glirio mae'r eogiaid oedd yn llechu yn y Fenai wedi dechrau redeg y Seiont, ac fe welwyd nifer yn cael eu bachu. Cafodd Gwynfor Jones, Llanrug, ddau arall — oddeutu 6 pwys — o ardal Llyn Doctor, ac fe gafodd James a Steven Carr, Llanrug, dri yr un eto oddeutu 6-7 pwys. Rhaid hefyd llongyfarch Gari Morris, Llanrug, ar gael eog 8 pwys — wedi curo ei daid eto, mae'n rhaid bod

(parhâd ar dudalen 15)

DAL YN Y GWPAN



Mae ôl y frwydr yn amlwg ar Alwyn Williams ac Arwel Hughes, sgorwyr y ddwy gôl i Ddeiniolen yn eu buddugoliaeth o 2-0 dros ail dîm Llandyrnog yn rownd gyntaf Cwpan Iau y Gogledd. Tybed mai dyma'r cam cyntaf at gipio'r cwpan?

'BYD YR ENWAIR'

Wrth i'r tywydd oeri fe ddaeth lliw mwy naturiol ar ddyfroedd Llyn Padarn ond yn ffodus roeddem wedi rhoi pethau ar y gweill gyda'r A.C.A. a thrwy eu cyfreithwyr a chydweithrediad y Brifysgol ym Mangor mae gobaith y bydd Bwrdd Dŵr Cymru yn cael eu gorfodi i beidio arllwys phosphates niweidiol i'r llyn.

Mae'n warthus mai'r Gymdeithas sydd wedi gorfod ymgymryd â'r gwaith yma. Beth am logo'r awdurdod afonydd 'gwarchodlys ein dyfroedd' — geiriau gwag iawn yn yr ardal yma.

Achos arall sy'n cael ei ddilyn gan y Clwb yw yr achos o lygredd a achoswyd gan DMM Llanberis pan oeddynt yn gweithio ar Hen Felin Sam, Clwt-y-bont, pan arllwyswyd cemeg niweidiol i afon Caledffrwd. Fe laddwyd miloedd ar filoedd o eogiaid a sewin ychydig fisoedd oed. Trwy ladd y cywion yma — a fuasai wedi dychwelyd o'r môr ymhen blwyddyn neu ddwy — gellir gweld bod colled arthurol wedi ei wneud i ddarpar-gyfrif yr afon. Digwyddodd hyn cryn dair blynedd yn ôl ac ar ddechrau mis Medi eleni fe gafodd y